

PARTNERIAID ADDYSG CANOLBARTH CYMRU

MID WALES EDUCATION PARTNERS



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Partneriaid Addysg
Canolbarth Cymru
Mid Wales
Education Partners

Cynllun busnes | Business plan 2023 – 2026

(gan gynnwys | including annual plan for
2023 – 2024)

This document is also available in English.

CYNNWYS

Cyflwyniad	3
Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru mewn Cyd destun	5
Strwythur a Llywodraethant PACC	8
Gwerthusiad 2022 – 2023	10
Gwerthusiad o 22/23: Blaenoriaeth 1	11
Gwerthusiad o 22/23: Blaenoriaeth 2	17
Gwerthusiad o 22/23: Blaenoriaeth 3	22
Gwerthusiad o 22/23: Blaenoriaeth 4	25
Gwerthusiad o 22/23: Blaenoriaeth 5	28
Trefniadau darpariaeth	29
Blaenoriaethau 3 mlynedd: 2023 - 2026	31
Blaenoriaethau PACC: 2023 – 2026	34
Blaenoriaethau PACC yn 2023 – 2024	35
Trosolwg o Flaenoriaethau 2023 - 2024	35
Cynllun Cyflawni 2023 – 2024	36
Blaenoriaeth 1 Priority 1	38
Blaenoriaeth 2 Priority 2	41
Blaenoriaeth 3 Priority 3	44
Blaenoriaeth 4 Priority 4	46
Blaenoriaeth 5 Priority 5	48
Cyllid RCG PACC - 2023 – 2024	50

CYFLWYNIAD

Ffurfiwyd Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC) ym mis Medi 2021 wrth i Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion a Phowys ddod at ei gilydd i gydweithio ar rai agweddau i gefnogi a ddiwallu anghenion ysgolion, dysgwyr ac ymarferwyr ar draws Canolbarth Cymru. Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth yn cadarnhau gwaith y Bartneriaeth ar meysydd o gyd-weithio:

1. Datblygiad y Cwricwlwm
2. Datblygiad Proffesiynol ac Ymholiad
3. Ecwiti ac amddifadedd gwledig
4. Llwybrau arweinyddiaeth
5. Cefnogaeth i athrawon newydd gymhwyso / sefydlu ac athrawon gyrfa cynnar
6. Llwybrau datblygiad Cynorthwywyr Addysg



Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd:

Fel Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru byddwn yn darparu ysgolion â gwasanaeth gwella rhagorol a chwbl integredig. Bydd ein gwaith o safon rhagorol a bydd yn sicrhau arloesedd a thrylwyredd wrth ddarparu gwasanaethau gwella cynaliadwy. Byddwn yn:


- Cefnogol a chydweithredol yn ein hymagwedd
- Creadigol, hyblyg a gonest yn ein ffyrdd o weithio
- Effeithiol ac effeithlon fel partneriaeth




Ein nodau:




Wrth ystyried gwaith PACC yn cefnogi ysgolion Canolbarth Cymru i gyflawni 'Cenhadaeth ein cenedl: Safonau a dyheadau uchel i bawb' a chydabod yr angen i leihau'r amrywiaeth rhwng ysgolion ac ardaloedd daearyddol, bydd PACC yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdodau Lleol a'u timau Gwella Ysgolion i gyflawni'r nodau canlynol:

- cefnogi arweinwyr a'u datblygiad proffesiynol a datblygu amrywiaeth eang o arweinwyr effeithiol yn y dyfodol i ddiwallu anghenion Canolbarth Cymru
- cefnogi athrawon a chynorthwyrwyr addysgu gyda chynnig dysgu proffesiynol cynhwysfawr, pwrpasol, safonol ac effeithiol, sy'n hygyrch i aelodau staff, ac yn cyd-fynd â'u meysydd blaenoriaeth lleol
- cefnogi ysgolion wrth iddynt adfer yn dilyn y pandemig i gael effaith gadarnhaol ar lesiant staff a disgyblion
- cefnogi ysgolion i ddatblygu cynnig cwricwlwm sy'n sicrhau cynnydd, a'r pedwar diben sy'n greiddiol i hynny
- cefnogi ysgolion i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu'n barhaus i gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd bywyd disgyblion
- sicrhau cefnogaeth, her ac ymyrraeth drylwyr o ansawdd uchel i ysgolion
- datblygu rhwydweithiau cefnogi pwrpasol ac effeithiol rhwng ysgolion a hwyluso system hunan-wella
- darparu cymorth pwrpasol i ysgolion yn unol â meysydd blaenoriaeth Datblygu Ysgolion
- datblygu cyd-ddealltwriaeth o amddifadedd gwledig a thegwch i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd i lwyddo, beth bynnag fo'i heriau cymdeithasol
- sicrhau bod Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru'n gweithio'n effeithlon ac yn ymdrechu i sicrhau gwerth am arian; a
- gweithio'n effeithiol ag amrywiaeth eang o bartneriaid priodol i ddarparu gwasanaeth sy'n ymateb i anghenion ein hysgolion, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, ac sy'n cyd-fynd yn strategol â 'Tyfu Canolbarth Cymru' a Bwrdd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol.

PARTNERIAID ADDYSG CANOLBARTH CYMRU MEWN CYD DESTUN




	Partneriaid Addysg Canol Cymru	Awdurdod Lleol Ceredigion	Awdurdod Lleol Powys
			
Ysgolion (Medi 2022)			
Cynradd	111	36	75
Pob oed	6	3	3
Uwchradd	12	4	8
Arbennig	3	0	3
Unedau Cyfeirio	3	1	2
Cyfanswm ar draws PACC	135	44	91
Dysgwyr (Ffynhonnell CYBLD 2022)			
Cyfnod Cynradd	13,842	4,847	8,995
Cyfnod Uwchradd	11,963	4,348	7,615
Cyfanswm dysgwyr PACC – Oedran Ysgol statudol	25,805	9,195	16,610

	Partneriaid Addysg Canol Cymru	Awdurdod Lleol Ceredigion	Awdurdod Lleol Powys
			
Dysgwyr (Ffynhonnell CYBLD 2022)			
Nifer PyDd	3,948	1,363	2,585
% PYDd	18.0	17.8	18.1
Nifer ADY - Cynradd	2,752	943	1,809
% ADY – Cynradd	23.2	23.2	23.3
Nifer ADY – Uwchradd	2,178	572	1,606
% ADY – Uwchradd	21.6	15.9	24.8
Nifer Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SfIY)	135	44	91
% SfIY	0.6	0.6	0.6
Nifer yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf	7,825	5,457	2,368
% yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf	35.7	71.3	16.6
Staff (Ffynhonnell Staff ysgol (CYBLD) (llyw.cymru))			
Nifer o athrawon	1,730	620	1,110
Athrawon – Cyfwerth ag amser llawn	1,515	550	965
Nifer o staff cymorth	1,705	590	1,115
Staff cymorth – Cyfwerth ag amser llawn	1,385	515	870

Gweithgaredd economaidd (Blwyddyn yn gorffen 30 ^{ain} o Fedi 2022) Economic inactivity rates (including students) by Welsh local area and year (gov.wales)			
% o'r gweithlu (oedran 16 – 64) Sydd yn economaidd weithgar	Cymru: 24.1% Canolbarth Cymru: 22.0%	24.8%	20.2%

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (llyw.cymru)			
Pob 4 i 5 mlynedd, mae Llywodraeth Cymru yn mesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru, sef y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Fe'i gyhoeddwyd diwethaf yn 2019. Mae MALIC yn gosod yr holl ardaloedd bach yng Nghymru mewn safleoedd rhwng 1 (mwyaf difreintiedig) a 1,909 (lleiaf difreintiedig).			
Nifer yr ardaloedd o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru		1/46	1/79
Nifer yr ardaloedd o fewn y 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru		2/46	5/79



STRWYTHUR A LLYWODRAETHANT PACC

Mae Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru yn cael ei lywodraethu gan Femorandwm o Ddealltwriaeth a gytunwyd gan y ddau Awdurdod Lleol am y cyfnod 2023 – 2026, ac sy'n amlinellu rolau, cyfrifoldebau, atebolrwydd a dulliau llywodraethu y bartneriaeth.

Mae Cynllun Busnes 2023 – 2024 PACC yn cyfateb i Gynlluniau Busnes unigol Awdurdodau Lleol Powys a Cheredigion. Mae hyn yn sicrhau bod y blaenoriaethau a rennir yn gweddu gyda'i gilydd.

Mae Ceredigion a Phowys yn cynnal eu tîm craidd o staff gwella ysgolion eu hunain, megis Ymgynghorwyr Gwella / Cefnogi Ysgolion, arweinwyr pwnc, swyddogion gweinyddol a chyllid. Fe'i ariannir o gyllideb graidd yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae pob grant, felly, yn ychwanegu capasiti i dargedu gweithgareddau maes blaenoriaeth penodol.

Cyfeiriad Strategol L1 (cyfarfodydd tymhorol) Prif Weithredwyr Prif Swyddogion Addysg Arweinydd Strategol PACC		<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Busnes Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC) • Cynllun Busnes Awdurdod Lleol a Bwrdd dal i gyfrif • Cyfarfodydd Aelodau Etholedig tymhorol • Grŵp cyfeirio penaethiaid tymhorol • Adroddiad blynyddol i bwyllgor craffu Ceredigion a Phowys 				Grŵp Cyfeirio Penaethiaid (cyfarfodydd tymhorol)
Cyfeiriad Strategol L2 (cyfarfodydd tymhorol) Prif Swyddogion Addysg Arweinydd Strategol PACC						
Grŵp Gweithredol (cyfarfodydd misol) Arweinydd Strategol PACC Rheolwyr Gwasanaeth Arweinwyr Gwella ysgolion						
Datblygiad y Cwricwlwm	Dysgu Proffesiynol ac Ymholiad	Ecwiti ac amddifadedd gwledig	Llwybrau arweinyddiaeth	Cefnogaeth ANG a Gyrfa Cynnar	Llwybrau datblygiad cynorthwyr addysg	
Sally Llewellyn	Sally Llewellyn	Gareth Lewis	Sarah Perdue	Alwyn Ward	Alwyn Ward	
Aled Rumble	Chris Davies	Laurie Hughes	Dafydd Iolo Davies	Sarah Perdue	Sarah Perdue	
Chris Davies	Aled Rumble	Mary Strong				
Elen Davies	Elen Davies	Andy Farrell				
	Rhianydd James					
	Menna Jones					
	Kay Morris					
	Rob Walters					
	Gareth Lanagan					
Rhwydweithiau MDaPh Traws ranbarthol a PACC (cyfarfodydd tymhorol)						
Celfyddydau Mynegiannol	Iechyd a Lles	Y Dyniaethau	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Mathemateg a Rhifedd	Gwyddoniaeth a Thechnoleg	
Lynsey McCrohon	Laurie Hughes	Aled Rumble	Laura Evans	Liz Evans	Anthony Bebb	
Elen Davies	Mary Strong	Fiona Thomas	Menna Beaufort Jones	Rhian Arch Rees	Kay Morris	
Nia Vaughan	Andy Farrell	Eurig Towns	Rhianydd James	Liws Harries	Rob Walters	
Claire Bradford	Gareth Lewis	Bethan James	Sarah Perdue	Gwyn Williams	David Quick	
Ross Bennett	Chris Davies	Bethan Jones	Bethan Price	Rachel Jones	Kay Hughes	
Claire Pritchard	Hannah Davies	Leah Acreman	Delyth Jones	Lowri Morgan	Sarah Cuthbertson	
	Nicole Jenkins		Wendi Terry / Lorna Tuffin	Adrienne Davies	Faye Brodrick	
			Ashley Bennett			
			Keri Bosley			
Cynrychiolaeth ar holl gyfarfodydd traws ranbarthol gyda systemau cyfathrebu clir yn ôl i swyddogion PACC a'r Awdurdodau Lleol						

GWERTHUSIAD 2022 – 2023

Un o brif amcanion Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru yw i sicrhau bod ein gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar les, arferion a chynnydd ein hysgolion, ymarferwyr a dysgwyr. Adlewyrchwyd hyn, yng nghyd ar blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, yn y pum maes blaenoriaeth ar gyfer 2022 – 2023, er mwyn cefnogi ysgolion Canolbarth Cymru i adfer yn dilyn effaith y pandemig ac i gofleidio'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Roedd hyn yn cynnwys cryfhau'r gwaith o fewn clystyrau ac o ysgol i ysgol i gefnogi gwelliant parhaus yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu a dylunio'r cwricwlwm ar gyfer y continwwm 3 – 16.

Blaenoriaethau 2022 – 2023:

1. Sicrhau bod ysgolion yn hyderus wrth roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith o Fedi 2022 ymlaen, a pharhau i ganolbwyntio ar wella'r dysgu ac addysgu
2. Cefnogi a datblygu gweithwyr addysg proffesiynol rhagorol
3. Datblygu a rhoi strategaeth degwch ar waith, a chefnogi lles ac anghenion emosiynol disgyblion ac ymarferwyr
4. Sicrhau bod trefniadau cynorthwyo a gwella ysgolion yn glir, ac arwain ysgolion i barhau i ddatblygu fel sefydliadau dysgu sy'n rhoi'r trefniadau gwella, gwerthuso ac atebolrwydd diwygiedig ar waith
5. Sicrhau trefniadau mewnol effeithlon, a chyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid.

GWERTHUSIAD O 22/23: BLAENORIAETH 1

Sicrhau bod ysgolion yn hyderus wrth roi Cwricwlwm i Gymru ar waith o Fedi 2022 ymlaen, a pharhau i ganolbwyntio ar wella'r dysgu ac addysgu.

Mae bron pob ysgol ar draws PACC yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â rhaglen ddiwygio'r cwricwlwm i Gymru.

Ar gyfer yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd, arbennig a lleoliadau hynny a fabwysiadwyd y cwricwlwm newydd o fis Medi 2022, mae bron pob un wedi cyhoeddi eu gweledigaeth a'u crynodeb o'r cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i ymgysylltu'n dda gyda'r cymorth cyffredinol sydd ar gael ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a / neu lleol yng nghyd â'r cymorth pwrpasol. Mae llawer yn cydnabod pwysigrwydd amser cynllunio ar gyfer cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd i staff barhau i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o ysgolion yn adrodd bod staff yn datblygu mwy o hyder a gwybodaeth am y cydrannau o fewn y fframwaith, gyda mwyafrif yr ymarferwyr yn cydweithio gyda'u cyfoedion i ddylunio a chynllunio eu cynnig i'r cwricwlwm.

Mae gweddill yr ysgolion uwchradd, arbennig a lleoliadau yn parhau i baratoi'n dda ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2023. Mae bron pob un o'r ysgolion hyn yn ymgysylltu'n pwrpasol â'r cynnig cyffredinol and phwrpasol ar draws y bartneriaeth ac yn defnyddio disgwyliadau'r system o fewn 'Cwricwlwm i Gymru: y daith i 2022' i gefnogi eu cynllunio strategol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn adolygu'r weledigaeth, gwerthoedd a'r ymddygiadau yn eu lleoliadau unigryw ac wedi ymgysylltu'n dda â staff i ddatblygu hyn ar draws eu hysgol a'u clwstr. Mae gan lawer o arweinwyr ysgol ddealltwriaeth gadarn o fframwaith y cwricwlwm a'r ymagweddau dylunio ac maent wedi nodi ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff barhau i ddatblygu dealltwriaeth glir a rennir o addysgeg effeithiol, egwyddorion o ddilyniant ac asesu ffurfiannol a chrynodol.

Ar draws Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru, mae gan pob ysgol, ymarferydd a swyddogion y gwasanaethau ysgol mynediad i'r cynnig dysgu proffesiynol ac adnoddau cenedlaethol, rhanbarthol PACC ac Awdurdodau Lleol trwy Hwb. Ceir mynediad i'r cynnig dysgu proffesiynol naill ai yn fyw dros Teams, wyneb yn wyneb neu'n asynronig wedi ei recordio ar ôl y digwyddiad trwy wefan Consortia Addysg Cymru neu trwy SharePoint y ddau Awdurdod Lleol at Hwb.

Bu i'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol cael ei rannu gydag ysgolion ymhell cyn y flwyddyn academaidd newydd er mwyn rhoi amser i ysgolion ymgorffori'r cynnig yn eu calendrau ysgol. Atgoffir ysgolion hefyd o'r cynnig dysgu proffesiynol drwy eu safleoedd SharePoint lleol a'r cylchlythyr Cwricwlwm i Gymru tymhorol. Lle mae ysgolion wedi llwyddo i ganfod yr amser a'r gofod ar gyfer dysgu proffesiynol, mae gan arweinwyr gynlluniau effeithiol ar waith ac yn gwneud defnydd da o'r grant dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen cymorth

ychwanegol ar ambell ysgol i alluogi arweinyddiaeth gref fel bod dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio'n dda ac yn cymryd i ystyriaeth blaenoriaethau'r ysgol gyfan a'r Meysydd Dysgu.

Ar draws Canolbarth Cymru, mae swyddogion yn cymryd rôl weithgar a phwysig ar lefel genedlaethol drwy gyd-adeiladu a chymryd rhan lawn o fewn y rhaglenni cenedlaethol ar 'Cwricwlwm a dylunio asesu' a 'Dilyniant'. Anogir pob ysgol i fynychu'r digwyddiadau dysgu proffesiynol cenedlaethol, gyda chyfranogiad ysgolion Ceredigion a Phowys wedi'u hamlinellu yn y tabl isod. Dangosir ffigyrau ymgysylltu o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol cenedlaethol bod ychydig o ysgolion PACC yn mynd ati i ymgysylltu gyda'r cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol. Mae ymgysylltu â'r cynnig cenedlaethol yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer 2023 – 2024.

Ffigurau ymgysylltu ar gyfer digwyddiadau dysgu proffesiynol cenedlaethol byw (efallai na fydd yn cynnwys ymgysylltu ag adnoddau asynronig) https://drive.google.com/file/d/1U4YJwM-G-y1z2FUCM9x9JYRmtgaNv49K/view				
Dyddiad yr hyfforddiant	Hyfforddiant	Cyfanswm nifer o ysgolion PACC a mynychwyd	Math o ysgol	Rôl o fewn yr ysgol (Er sylw: Bu i rai ysgolion cael mwy nag un yn mynychu)
20.09.2022	Trosolwg o asesu a chynnydd o fewn Cwricwlwm i Gymru	23	Cynradd - 21 Uwchradd - 0 Pob Oed - 2 Arbennig - 0 UG - 0	Athro – 3 Rheolwr canol - 1 Arweinyddiaeth – 5 Pennaeth – 14
04.10.2022	Datblygu gweledigaeth a rennir: Adolygu rhywfaint o'r theori sylfaenol, gydag enghreifftiau ysgolion a chyfleoedd i drafod dulliau	8	Cynradd - 7 Uwchradd - 0 Pob Oed - 1 Arbennig - 0 UG - 0	Athro – 0 Rheolwr canol - 0 Arweinyddiaeth – 4 Pennaeth – 4
07.12.2022	Cynllunio ar gyfer cynnydd ac asesu	8	Cynradd - 8 Uwchradd - 0 Pob Oed - 0 Arbennig - 0 UG - 0	Athro – 6 Rheolwr canol - 0 Arweinyddiaeth – 8 Pennaeth – 3
26.01.2023	Cynllunio gwahanol fodelau cwricwlwm: Enghreifftiau ymarferol o sut y mae ysgolion wedi mynd ati i ddatblygu modelau cwricwlwm a chyfleoedd i drafod dulliau	4	Cynradd - 3 Uwchradd - 0 Pob Oed - 0 Arbennig - 1 UG - 0	Athro – 0 Rheolwr canol - 0 Arweinyddiaeth – 4 Pennaeth – 0

08.02.2023	Cynllunio ar gyfer cydlyniad cwricwlaidd: Datblygu cynllunio ar gyfer cynnydd gydag enghreifftiau ymarferol i ysgolion	2	Cynradd - 2 Uwchradd - 0 Pob Oed - 0 Arbennig - 0 UG - 0	Athro – 1 Rheolwr canol - 0 Arweinyddiaeth – 1 Pennaeth – 0
07.03.2023	Rhwydwaith MDaPh Cenedlaethol Iechyd a Lles ac Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	20	Cynradd - 9 Uwchradd - 2 Pob Oed - 1 Arbennig - 1 UG – 0 Swyddog - 7	Athro – 3 Rheolwr canol - 4 Arweinyddiaeth – 2 Pennaeth – 3
08.03.2023	Rhwydwaith MDaPh Cenedlaethol Y Dyniaethau a Mathemateg a Rhifedd	12	Cynradd - 4 Uwchradd - 1 Pob Oed - 2 Arbennig - 0 UG – 0 Swyddog - 4	Athro – 2 Rheolwr canol - 2 Arweinyddiaeth – 4 Pennaeth – 0
09.03.2023	Rhwydwaith MDaPh Cenedlaethol Gwyddoniaeth a Thechnoleg ac Y Celfyddydau Mynegiannol	12	Cynradd - 8 Uwchradd - 01 Pob Oed - 1 Arbennig - 0 UG – 0 Swyddog - 2	Athro – 5 Rheolwr canol - 3 Arweinyddiaeth – 1 Pennaeth – 1

Ar lefel ranbarthol a lleol, mae ymgysylltiad ysgolion ac ymarferwyr yn gryfach gydag ysgolion yn cael y cynnig o gyfuniad o hyfforddiant cyffredinol a phwrpasol i'w cefnogi i gwireddu'r cwricwlwm newydd ac egwyddorion addysgol cryf. Er enghraifft, yn haf 2022, mynychodd 155 o ymarferwyr PACC y gweminar Asesu a Dilyniant a lansiad llwyddiannus y wefan asesu a gynhaliwyd ar gyfer pob ysgol ac ymarferydd. Yn defnyddio'r model gwerthusol Kirkpatrick, dangosodd yr adborth cychwynol o'r gweminar hwn bod 97.6% o'r ymarferwyr yn cytuno bod y cyfle dysgu proffesiynol yn gwella eu gwybodaeth am y pwnc a sgoriwyd 4.07/5 am y potensial i gael effaith gadarnhaol ar ymarfer. Yn y gwerthusiad dilynol, nododd adborth yr ymarferwyr o ran effaith y dysgu ar ganlyniadau dysgwyr bod y dysgu proffesiynol a dderbyniwyd ar asesu a dilyniant wedi arwain at newid i'w gweithdrefnau asesu o ran canolbwyntio ar asesu ffurfiannol a chynnydd dysgwyr.

I gefnogi dulliau addysgu a dysgu ymhellach, sefydlwyd rhwydweithiau tymhorol ar gyfer pob un o'r chwe MDaPh. Mae dros 600 o ymarferwyr unigol o ysgolion PACC wedi cofrestru gyda'r rhwydweithiau ar lein gyda nod y rhwydweithiau i ganiatáu ymarferwyr o bob rhan o'r Canolbarth i ddod at ei gilydd i rannu arfer effeithiol ac adnoddau. Mae'r ymgysylltiad gyda'r rhwydweithiau MDaPh PACC yn gwella fel yr amlinellir yn y tabl trosodd, ac mae'n parhau'n flaenoriaeth ar gyfer 2023 – 2024. Mae adborth gan ymarferwyr yn nodi bod y rhwydweithiau MDaPh yn profi'n werthfawr i alluogi cydweithio, trafod arferion a rhannu arferion effeithiol. Mae'r holl sesiynau yn cael eu recordio ac adnoddau yn cael eu rhannu yn ardal y tîm ar Hwb. Mae gan bob

rhwydwaith sianeli unigol ar gyfer cydweithio cynradd, uwchradd, pontio a chyfrwng Cymraeg.

Rhwydwaith MDaPh						
	Celfyddydau Mynegiannol	Iechyd a Lles	Y Dyniaethau	Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu	Mathemateg a Rhifedd	Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Nifer o ysgolion PACC wedi cofrestru gyda'r rhwydwaith	64	75	67	72	66	71
Haf 2022	27	18	14	18	19	15
	Cynradd - 17 Uwchradd - 6 Pob oed- 2 Arbennig - 1 UG - 1	Cynradd - 13 Uwchradd - 3 Pob oed- 1 Arbennig - 0 UG - 1	Cynradd - 8 Uwchradd - 2 Pob oed- 2 Arbennig - 1 UG - 1	Cynradd - 13 Uwchradd - 2 Pob oed- 2 Arbennig - 0 UG - 1	Cynradd - 14 Uwchradd - 3 Pob oed- 1 Arbennig - 0 UG - 1	Cynradd - 10 Uwchradd - 5 Pob oed- 0 Arbennig - 0 UG - 0
Hydref 2022	13	28	23	27	26	23
	Cynradd - 9 Uwchradd - 2 Pob oed- 1 Arbennig - 1 UG - 0	Cynradd - 20 Uwchradd - 3 Pob oed- 4 Arbennig - 1 UG - 0	Cynradd - 15 Uwchradd - 4 Pob oed- 3 Arbennig - 1 UG - 0	Cynradd - 18 Uwchradd - 5 Pob oed- 3 Arbennig - 1 UG - 0	Cynradd - 20 Uwchradd - 4 Pob oed- 1 Arbennig - 1 UG - 0	Cynradd - 15 Uwchradd - 6 Pob oed- 1 Arbennig - 1 UG - 0
Gwanwyn 2023	15	20	16	16	18	19
	Cynradd - 11 Uwchradd - 2 Pob oed- 0 Arbennig - 2 UG - 0	Cynradd - 16 Uwchradd - 2 Pob oed- 1 Arbennig - 1 UG - 0	Cynradd - 7 Uwchradd - 6 Pob oed- 2 Arbennig - 1 UG - 0	Cynradd - 11 Uwchradd - 4 Pob oed- 0 Arbennig - 1 UG - 0	Cynradd - 13 Uwchradd - 3 Pob oed- 2 Arbennig - 0 UG - 0	Cynradd - 13 Uwchradd - 6 Pob oed- 0 Arbennig - 0 UG - 0

Lle mae ymgysylltu â'r cynnig dysgu proffesiynol yn gryf, naill ai fel rhan o'r sesiynau byw neu asynronig, ceir tystiolaeth o adroddiadau ysgol diweddar gan Estyn ac adroddiadau Gwella Ysgolion yr Awdurdodau Lleol fod yr ysgolion hynny yn gwneud cynnydd gwerthfawr wrth gynllunio a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ysgol Calon Cymru, nodwyd hyn gan yr arolygiaeth gan ddweud "*Caiff pob aelod o staff gyfleoedd buddiol i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgorau sy'n eu galluogi i rannu a datblygu eu harferion ystafell ddosbarth a datblygu eu medrau arwain. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ychydig o feysydd gwaith yr ysgol*" (Estyn, Hydref 2022). Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso'n llawn effaith y rhwydweithiau ar ddarpariaeth a chynnydd dysgwyr ar draws ysgolion Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru.

Mae cefnogaeth pwrcasol a chyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael ei frocera drwy'r Ymgynghorwyr Gwella / Cefnogi Ysgolion, gyda'r blaenoriaethau ysgol unigol yn cael eu rhannu gyda swyddogion i lywio eu cynllun cefnogi. Yn 2022 – 2023 roedd 66 ysgol ar draws PACC wedi gosod y Cwricwlwm i Gymru fel blaenoriaeth ysgol gyfan a 37 asesiad a dilyniant. Ar gyfer yr ysgolion hyn, darparwyd cefnogaeth bwrpasol i

ganiatáu sgysiau unigol a gwneud cynnydd o ran cynllunio cwricwlwm, dilyniant ac asesu ysgol a chlwstwr cyfan.

Ym mis Medi 2022, ar draws PACC, fe fabwysiadodd yr holl ysgolion / cyfnodau cynradd a chwech ysgol / cyfnod uwchradd , pob oed ac arbennig (un yng Ngheredigion a phump ym Mhowys) y Cwricwlwm i Gymru. Yn unol â'r gofynion gorfodol, gyda chymorth a chanllawiau gan PACC, mae pob un o'r ysgolion sydd wedi mabwysiadu'r cwricwlwm wedi datblygu gweledigaeth ysgol bwrpasol. Mewn llawer o ysgolion PACC, datblygwyd y weledigaeth ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol er mwyn ymgorffori'r cyfleodd gwerthfawr i ddysgwyr archwilio nodweddion hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol eu cynefin a Chymru yn llwyddiannus. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae gweledigaeth yr ysgol hefyd wedi llwyddo i ymgorffori cyfleodd i ddysgu am amrywiaeth y gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach. Er enghraifft, nodir gweledigaeth ysgolion fel Trefonnen ac Ysgol Penglais am eu cynwysoldeb gyda'i gweledigaethau wedi cael eu rhannu'n genedlaethol ac yn lleol ar draws y bartneriaeth, a'u hadroddiadau Estyn diweddar yn datgan, "*Mae'r paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn drylwyr a chynhwysol ac yn ystyried gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol.*" (Adroddiad Trefonnen, Gorffennaf 2022) ac "*Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer ei chwricwlwm sydd wedi'i seilio ar yr egwyddorion y mae'r ysgol wedi'u nodi ynghylch Cyfathrebu, Lles a Bod yn Gadarnhaol, Gwybodaeth, Diwylliant Creadigol a Chynwysoldeb*" (Adroddiad Ysgol Penglais, Mai 2022).

Mae ysgolion a lleoliadau heb eu cynnal sydd wedi mabwysiadu'r cwricwlwm newydd wedi ystyried a chyhoeddi crynodebau cwricwlwm pwrpasol a phriodol ac ar gael i'w gweld gan yr holl ran-ddeiliaid. Er enghraifft, crynodebau cwricwlwm Bontnewydd ar Gwy ac Ysgol Gynradd Aberteifi. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen cymorth pellach ar leiafrif o ysgolion i sicrhau bod crynodebau'r cwricwlwm yn cael eu rhannu'n bwrpasol â rhanddeiliaid.

Er mwyn cefnogi'r cydweithio yn natblygiad y continwmm 3 – 16 wrth ddylunio'r cwricwlwm, cynlluniau pontio cryf ac addysgeg effeithiol, mae gwaith ysgol i ysgol a chlwstwr wedi'i annog. Datblygwyd hyn drwy'r hyfforddiant clwstwr cyffredinol a'r gefnogaeth bwrpasol a ddarparwyd i ysgolion Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru gan swyddogion PACC. Mae'r gefnogaeth hon hefyd wedi ei ddarparu i lawer o leoliadau nas gynhelir. O ganlyniad, mae llawer o glystyrau wedi sefydlu a chyhoeddi gweledigaethau clwstwr clir ac o ganlyniad, gan ymarferwyr ddefnyddio'r weledigaeth i yrru eu cwricwlwm clwstwr. Mae cryfder y cydweithio ysgol i ysgol a chlwstwr wedi'i nodi yn Ysgol Calon Cymru, Ysgol Eglwys Llansantffraid ac Ysgol Penglais gan Estyn, yn ddiweddar, gyda'r arolygiaeth yn nodi "*Er bod hyn megis dechrau, mae arweinwyr wedi ffurfio egwyddorion cwricwlwm addas, sef 'Adduned y Cwricwlwm'. Roedd yr ymarfer hwn yn cynnwys ymgynghori â staff, disgyblion, ysgolion clwstwr, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned leol*" (Adroddiad Ysgol Calon Cymru, Hydref 2022). "*Leaders and staff have worked systematically on their journey to creating an exciting whole school curriculum. They have worked closely with pupils, parents and governors to develop a purposeful curriculum vision based on the school's core values*

‘Mesen ddyry Dderwen’ ‘Learning to grow, growing to learn’. Through this vision and working collaboratively with other local schools, they have trialled new ideas and evaluated the impact of any new approaches on pupils’ learning. As a result, their newly designed curriculum is relevant and meets the needs of all pupils well’ (Adroddiad Ysgol Eglwys yng Nghymru, Llansantffraid, Tachwedd 2022). *“Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol ag ysgolion cynradd lleol i sicrhau bod y cwricwlwm ym Mlwyddyn 7 yn adeiladu’n dda ar brofiadau disgyblion yn ystod cyfnod allweddol 2. Megis dechrau y mae gwaith gyda’r ysgolion cynradd hyn i ddatblygu cynnydd dysgu yn y Cwricwlwm i Gymru”.* (Adroddiad Ysgol Penglais, Mai 2022).

Mae ysgolion Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru wedi cael eu nodi fel eu bod yn defnyddio’r dysgu proffesiynol sydd ar gael yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i nid yn unig baratoi ar gyfer diwygio’r cwricwlwm, ond hefyd, wrth weithio tuag at ddulliau o wella addysgeg ymarferwyr. Er enghraifft, yn Ysgol Uwchradd Aberteifi, nodir gan Estyn *“Mae gwaith ar ddylunio’r cwricwlwm, ynghyd â ffocws ar wella addysgu, wedi arwain at weledigaeth gref a chlr ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru”* (Adroddiad Estyn, Mawrth 2022).

O ganlyniad i’r gweithio clwstwr / rhanbarthol cryfach, mae bron pob un clwstwr wedi datblygu a mabwysiadu cynlluniau pontio yn llwyddiannus a fydd yn cefnogi cynnydd dysgwyr. Mae’r camau nesaf wedi’u nodi i gefnogi clystyrau i gyd-weithio ar ddatblygu continwmm cwricwlwm 3 – 16 ar gyfer pob MDaPh. Cydnabyddir bod lleiafrif o ysgolion ar draws Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru angen cymorth pwrpasol pellach i sicrhau bod eu datblygiad o’r cwricwlwm a’r gweithdrefnau asesu yn bwrpasol a bod cynlluniau pontio cryf yn eu lle. Mae’n bwysig hefyd bod pob swyddog cymorth a gwella ysgolion yn gyfarwydd a hyderus yng ngweithdrefnau dilyniant ac asesu’r cwricwlwm newydd.

GWERTHUSIAD O 22/23: BLAENORIAETH 2

Cefnogi a datblygu gweithwyr addysg proffesiynol rhagorol

Fel rhan o Bartneriaid Addysg Canolbarth Cymru, mae gan holl ysgolion ac ymarferwyr Canolbarth Cymru fynediad i'r llwybrau arwain cenedlaethol a rhanbarthol. Wedi'i hwyluso gan swyddogion rhanbarthol, mae ysgolion ac ymarferwyr yn parhau i ymgysylltu'n dda â'r llwybrau arweinyddiaeth cenedlaethol fel y dangosir yn y tabl isod.

Rhaglenni Arweinyddiaeth Cenedlaethol a ddilynr gan ymarferwyr PACC	2021 – 2022	2022 – 2023
Sefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)	91 Ceredigion: 37 Powys: 54	99 Ceredigion: 30 Powys: 69
Rhaglen Gyrfa Cynnar (Peilot newydd – Gwanwyn 2023)	N/A	18 Ceredigion: 9 Powys: 9
Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu (LlwdCA)		
Sefydlu ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Newydd eu penodi	18	33
Rhaglen Cynorthwywyr Addysgu wrth eu gwaith	34	8
Darpar Gynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (CALU)	35	16 (Cylch / Cohort 5 and 6)
Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol		
Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol	25	21
Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr	14	12
Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi ar gyfer CPCP	12	8
Asesiad CPCP	27 Ceredigion 9 Powys: 18 O'r rhain bu i 25 lwyddo Cynradd – 15 Uwchradd - 8 Arbennig – 2 UG - 0	15 Ceredigion: 1 Powys: 14 O'r rhain bu i 14 lwyddo Cynradd – 10 Uwchradd - 3 Arbennig – 1 UG - 0
Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaeithiaid mewn Gofal	Cohort 4: 8	Cohort 5: 11

Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol	1	2
Rhaglen cymell a mentora cenedlaethol	10 Ceredigion: 2 Powys: 8	18 Ceredigion: 1 Powys: 17

Er ei bod hi'n anodd barnu effaith lawn y rhaglenni arweinyddiaeth ar arweinyddiaeth, darpariaeth ac yn y pen draw dysgu a chynnydd dysgwyr ar draws ysgolion PACC, mae arolygiadau diweddar Estyn wedi cyfeirio at gyfleoedd sydd ar gael i ymarferwyr ddatblygu eu hymarfer a'r effaith gadarnhaol y maent yn ei chael ar arfer arweinwyr. Er enghraifft, yn Ysgol Penglais *"rhoddir cyfleoedd buddiol i staff ennill cymwysterau ychwanegol i gefnogi eu gwybodaeth a'u datblygiad proffesiynol. Rhoddir amser i bob aelod o staff ddilyn eu diddordebau proffesiynol eu hunain. Mae'r ffocws parhaus ar wella arferion yn yr ysgol yn cael effaith nodedig ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu"* (Adroddiad Estyn, Mai 2022). Ac yn Ysgol Calon Cymru, nodwyd gan Estyn *"Mae arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol sy'n hyrwyddo dysgu proffesiynol parhaus ar gyfer pob un o'r staff. Maent wedi datblygu 'Siarter Dysgu Proffesiynol' glir sy'n amlinellu ei uchelgais i fod yn sefydliad dysgu sy'n defnyddio'r safonau proffesiynol mewn addysgu i fyfyrion ar ei arfer a gwella. Caiff staff gyfle i elwa ar ystod o gyfleoedd datblygiad proffesiynol priodol sy'n diwallu eu hanghenion unigol a blaenoriaethau strategol yr ysgol, ar y cyfan. Mae'r rhain yn cynnwys diwrnodau datblygu yn yr ysgol bob tymor, sesiynau a ddarperir gan ddarparwyr allanol a chyrsgiau ar ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru."* (Adroddiad Estyn, Hydref 2022).

O ganlyniad i'r rhaglen datblygu darpar benaethiaid, gan arwain at gymhwyster CPCP, mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd â swyddi penaethiaid dros dro wedi llwyddo i benodi penaethiaid parhaol rhwng mis Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Fodd bynnag. Cydnabyddir fod hwn yn ddarlun sy'n newid yn barhaus ac mae angen ffocws parhaus ar sicrhau arweinyddiaeth gref a chynllunio olyniaeth ledled Canolbarth Cymru.

	Ysgol	Sefyllfa'r pennaeth ym mis Ebrill 2021 – Mawrth 2022	Sefyllfa'r pennaeth ym mis Ebrill 2022 – Mawrth 2023	Nodiadau
Powys	Ysgol Uwchradd Caereinion	Dros dro	Parhaol	Apwyntiad ar gyfer ysgol pob oed newydd –Ysgol Bro Caereinion o mis Medi 2022
	Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion	Dros dro	Parhaol	
	Welshpool High School	Dros dro	Parhaol	Apwyntiad o Medi 2022
	Llanrhaeadr ym Mochnant	Parhaol	Dros dro	Wedi hysbysebu tair gwaith – dim ceisiadau hyd yma

	Ysgol Gynradd Crughywel	Dros dro	Dros dro	Ym mynd allan i hysbyseb, Gwanwyn 2023
	Ysgol Uwchradd Crughywel	Parhaol	Dros dro	
	Ysgol Uwchradd Gwernyfed	Parhaol	Pennaeth gweithredol dros dro	Pennaeth newydd wedi ei apwyntio o Ebrill 2023
	Ysgol Cradoc	Dros dro	Dros dro	Ysgol yn cau – Awst 2024. Bydd yn rhan o ysgol gynradd newydd yn Aberhonddu
	Ysgol Cefnlllys	Parhaol	Dros dro	Wedi hysbysebu – dim apwyntiad
Ceredigion	Ysgol Penparc	Dros dro	Parhaol	Apwyntiad o Fedi 2022
	Ysgol Rhos Helyg	Dros dro	Parhaol	Dim ceisiadau hyd yma
	Ceredigion PRU	Parhaol	Dros dro	Pennaeth ar secondiad dwy flynedd
	Ysgol Gynradd Aberaeron	Dros dro	Dros dro	Yn mynd allan i hysbyseb, Haf 2023
	Ysgol Ciliau Parc	Parhaol	Dros dro	Ysgol yn cau – am uno gydag ysgol ardal newydd (Dyffryn Aeron)
	Ysgol Penweddig	Parhaol	Pennaeth gweithredol dros dro	Hysbyseb allan (Gwanwyn 2023)
Crynodeb: Nifer o benodiadau pennaeth dros dro				
		8	9	

Er mwyn cefnogi'r rhaglenni a llwybrau arweinyddiaeth cenedlaethol, mae cefnogaeth bwrpasol hefyd wedi'i chynllunio a'i ddarparu ar draws PACC gydag effaith gadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth mentora ychwanegol a rhaglen gymorth pwrpasol i benaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro ar thema perthnasol megis cyllid, eiddo, gweithdrefnau cwynion, rheoli perfformiad a sesiynau diogelu. Mae presenoldeb yn y sesiynau hyn wedi bod yn gryf, gyda bron pob pennaeth newydd a dros dro yn defnyddio'r sesiynau cymorth. O ganlyniad, mae penaethiaid newydd a dros dro yn fwy hyderus o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth eu hysgolion a dealltwriaeth o'u dyletswyddau statudol.

O'r deuddeg uwch arweinydd a gwblhaodd y rhaglen i uwch arweinwyr yn llwyddiannus, dywedodd pob un fod y rhaglen yn ddefnyddiol neu'n hynod ddefnyddiol, a gallai'r rhan fwyaf ddarparu enghreifftiau o sut roedd y sesiynau wedi cefnogi eu datblygiad arweinyddiaeth yn eu hysgol. Er enghraifft, tra'n arwain ar flaenoriaethau ysgol gyfan fel addysgu a dysgu a lles. Yn ystod y 6 mis ar ôl cwblhau'r rhaglen, cyfeiriodd chwarter y cyfranogwyr at y rhaglen fel un oedd wedi eu cefnogi i gael

dyrchafiad. Roedd lleiafrif o'r uwch arweinwyr yn gallu dangos effaith mwy hir dymor eu tasg profiad arweinyddiaeth.

Roedd bron pob un o'r ymarferwyr a mynychwyd y rhaglen datblygu arweinyddiaeth ganol yn graddio'r sesiynau fel rhai hynod ddefnyddiol neu ddefnyddiol iawn ac roedd mwyafrif yn gallu nodi sut y cafodd y sesiynau effaith gadarnhaol ar eu datblygiad arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd yr arweinwyr canol yn gallu triongli gwybodaeth yn dda er mwyn dangos effaith eu tasg profiad arweinyddiaeth ar gynnydd dysgwyr.

Dywedodd bron pob un o'r ymarferwyr ar y rhaglen i gynorthwywyr addysgu y byddai'r dysgu proffesiynol yn effeithio'n gadarnhaol ar eu hymarfer, ond dywedodd lleiafrif y bydden nhw'n hoffi cael cefnogaeth bellach o amgylch y CiG.

Mae'r gefnogaeth i athrawon sydd newydd gymhwyso (ANG) yn gryf, trwy gyflwyno'r rhaglen sefydlu cenedlaethol a rhaglen dysgu proffesiynol ychwanegol a phwrpasol i ANG, mentoriaid ysgol ac allanol led led PACC. O ganlyniad i'r rhaglen genedlaethol sy'n cefnogi ac yn gosod disgwyliadau clir ar yr ANG a mentoriaid, mae bron pob un ANG yn llwyddo i gwblhau eu cyfnod sefydlu o fewn blwyddyn. Dywedodd llawer o ANG y byddai'r rhaglen sefydlu yn cael effaith gadarnhaol ar eu ymarfer dros y flwyddyn nesaf.

Mae'r rhaglenni dysgu proffesiynol pwrpasol ychwanegol fel yr hyfforddiant llythrennedd a rhifedd cynradd ac uwchradd, ADY ac asesu yn cefnogi'r ANG yn eu hymarfer addysgol ac mae hyn yn cael ei wella ymhellach gan y gefnogaeth a'r arsylwadau ymarfer rheolaidd a wneir gan y mentoriaid ysgol ac allanol. Dywed llawer o'r ANG fod y sesiynau dysgu proffesiynol wedi gwella eu gwybodaeth am y pwnc a'u bod yn briodol i'w hanghenion a'u lefel sgiliau. Nododd y rhan fwyaf o ANG y byddai'r dysgu proffesiynol yn effeithiol wrth gefnogi datblygiad eu hymarfer.

Er gwaethaf y gefnogaeth a llwyddiant y rhaglen sefydlu, mae swyddogion PACC wedi nodi bod athrawon cynnar yn eu gyrfa yn aml teimlo'n ynysig, yn rhannol o ganlyniad i'r pandemig, ond hefyd cyflymder frenetig bywyd ysgol sy'n gadael fawr ddim lle i gydweithio. Mae'r lle i fyfyrion yn hynod gyfyngedig ac mae dod o hyd i amser i adeiladu ar eu sgiliau ymholi a datblygu addysgeg yn heriol. Gall dod o hyd i'r amser a gofod yn y diwrnod ysgol i gysgodi cydweithwyr neu i ddarganfod mwy am rolau proffesiynol y tu allan i'r ystafell ddosbarth fod yn heriol i lawer o athrawon ar ddechrau eu gyrfa (blynyddoedd 2 – 5 o'u gyrfa addysgu). Felly, nodir mae dim ond ychydig o athrawon ar ddechrau eu gyrfa sy'n gallu mynegi sut y byddent yn datblygu a chyflawni eu nodau gyrfa ar gyfer y tymor canolig a hir dymor. Mae hyn yn bryder i gadw athrawon o fewn y proffesiwn a chefnogi datblygiad athrawon PACC. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, gan ddechrau yn ystod tymor y gwanwyn 2023, mae'r PACC yn cynnal rhaglen beilot i gydnabod a datblygu sgiliau arwain ac ymholi athrawon sydd ym mlwyddyn 2 i 5 eu gyrfa addysgu. Y bwriad yw mai pont fydd y rhaglen rhwng y rhaglen sefydlu a'r rhaglen datblygu arweinwyr canol neu'r rhaglen MA mewn Addysg. Bydd hefyd yn

rhoi'r cyfle i'r rhai sydd wedi dod i'r proffesiwn ar ôl dilyn gyrfaoedd eraill addasu a datblygu eu sgiliau arwain ac ymholi. Bydd y rhaglen yn cefnogi'r recriwtio a chadw athrawon yng nghefn gwlad Cymru yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ardal Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru.

Mae tair rhaglen datblygiad proffesiynol a gytunwyd yn genedlaethol ac yn lleol ar gyfer cynorthwyr addysgu:

- i. Sefydlu ar gyfer Cynorthwyr Addysgu Newydd eu penodi: Rhaglen ar-lein sy'n cynnwys pedair sesiwn ac i'w cwblhau o fewn un flwyddyn academaidd.
- ii. Rhaglen Cynorthwyr Addysgu wrth eu gwaith: Rhaglen ar-lein o bedair sesiwn hanner diwrnod ar gyfer cynorthwyr gydag o leiaf 2 flynedd o brofiad.
- iii. Darpar Gynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (CALU): Rhaglen ar-lein o wyth sesiwn hanner diwrnod ar gyfer cynorthwyr sy'n anelu at ennill statws CALU. Ar ddiwedd yr wyth sesiwn mae'r cynorthwydd yn cofrestru eu diddordeb mewn cael eu hasesu am statws CALU. Mae'r asesiad yn cynnwys casgliad o 10 myfyrdod ysgrifenedig yn seiliedig ar eu harfer sy'n gysylltiedig â'r disgrifiadau safonau ar gyfer cynorthwyr addysgu. Rhaid i un fod yn adlewyrchiad o arwain y dysgu o ddsbarth cyfan ac yr ail ar ddefnyddio ymchwil i lywio ymarfer effaith. Mae'r cynorthwyr, athro a'r pennaeth yn cael eu cyfweld fel rhan o'r broses asesu. Yn dilyn asesiad, mae proses drwyadl o gymedroli rhanbarthol a chenedlaethol. Cynhelir digwyddiad dathlu i longyfarch y rhai sydd wedi ennill statws CALU.

O ganlyniad i'r llwybrau dysgu ar gyfer cynorthwyr addysgu, mae lleiafrif o'r CALU yn hyderus i ymgymryd â rolau arwain pellach yn y 2 fis yn dilyn y rhaglen. Er enghraifft, cymryd cyfrifoldeb am ddsbarthiadau cyfan yn eu lleoliad, ymgymryd â rôl hyrwyddwr llywodraethwyr, ymgymryd â hyfforddiant MeLSA neu ELSA, arwain darpariaeth feithrin neu ymgymryd â'r rhaglen hyfforddi a mentora genedlaethol.

GWERTHUSIAD O 22/23: BLAENORIAETH 3

Datblygu a rhoi strategaeth degwch ar waith, a chefnogi lles ac anghenion emosiynol disgyblion ac ymarferwyr.

Ar draws Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru, mae cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'u cyflwyno, megis hyfforddi emosiwn, dull ysgol gyfan a thîm o amgylch y clwstwr. Yn ogystal, mae adnoddau wedi'u rhannu gydag ysgolion i gefnogi ysgolion i wreiddio dull ysgol gyfan o les. Yn y mwyafrif o ysgolion mae hyn wedi'u gweithredu'n effeithiol gyda lles wrth wraidd eu holl gwaith. Yn 2022 – 2023, nododd 43 o ysgolion ar draws PACC fod lles yn flaenoriaeth ysgol gyfan, ac felly wedi llwyddo i gael mynediad at gefnogaeth bwrpasol ar lefel ysgol a / neu clwstwr. Er enghraifft, rhannodd ysgol Dafydd Llwyd eu hagwedd ysgol gyfan at les yn ystod cyfarfod y clwstwr gyda phwyslais arbennig ar ymatebion dosbarth cyfan ac ymatebion ar lefelau gwahanol wrth ymateb â lles dysgwyr a phwysigrwydd gwirio lles yn rheolaidd. O ganlyniad i'r gefnogaeth sydd ar gael, mae 35 o ymarferwyr wedi llwyddo i gwblhau'r hyfforddiant i fod yn Bencampwyr Hyfforddi Emosiwn ac yn gallu cefnogi ymarferwyr a dysgwyr yn llwyddiannus yn eu hysgolion eu hunain.

Mae pob ysgol / cyfnod uwchradd ledled Ceredigion a Phowys wedi llwyddo i gynnal arolwg ar-lein blynyddol SHRN ac wedi ymateb i'r canlyniadau gyda chefnogaeth swyddogion a thîm Ysgolion Iach. Er enghraifft, nodi a chefnogi meysydd iechyd a materion cymdeithasol a godwyd o'r arolwg SHRN a phryderon a godwyd ar gyfer grwpiau blwyddyn unigol fel cyfraddau cynyddol o wain (vaping) ymhlith oedolion ifanc.

Trwy gydol 2022 – 2023, mae swyddogion PACC wedi gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i gryfhau'r ddealltwriaeth a'r ddarpariaeth o gymorth lles sy'n cael ei dderbyn gan ysgolion. Mae hyn wedi cynnwys asiantaethau allan sy'n cefnogi gyda hyfforddiant i ysgolion fel Ysgolion Gwybodus Trawma a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid. Mae wedi ei drefnu yn ystod y cyfarfodydd tîm o amgylch y clwstwr gyda gwell presenoldeb o'r ysgolion (o leiafrif yn ystod haf 2022 i lawer yn ystod cyfarfodydd gwanwyn 2023) ac asiantaethau allanol (gyda eu cynrychiolaeth wedi dyblu). O ganlyniad, mae ysgolion yn teimlo'n fwy hyderus yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael. Er enghraifft, dywedodd ymarferydd "*mae wedi bod yn wych cael dealltwriaeth o'r gwasanaethau a'r bobl sydd allan yna i'n cefnogi ni. Fel ysgol fach mae wir yn helpu i weld a siarad â phobl ac yn eich helpu i sylweddoli nad ydych chi ar pen eich hun*".

Un maes blaenoriaeth allweddol fu gwaith y bartneriaeth wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer cefnogi ysgolion sy'n profi amddifadedd gwledig ac yn eu gwaith yn mynd i'r afael â thlodi. O ganlyniad, mae Awdurdodau Lleol Ceredigion a Phowys wedi mabwysiadu strategaeth ecwiti sy'n gosod cyrhaeddiad dysgwyr bregus a difreintiedig wrth wraidd eu gwaith.

Mae gan bob ysgol PACC fynediad at adnoddau 'Addysg Heriol – Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Dan Anfantais (RADY) (Challenging Education – Raising the Attainment of

Disadvantaged Youngsters (RADY) a 'Meddwl yn Wahanol'. Mae RADY yn brosiect hir dymor sy'n canolbwyntio ar wireddu potensial pob person ifanc. Mae dull haenog o gefnogi, sy'n cyd-fynd ag anghenion ysgol, blaenoriaethau ysgolion ac argymhellion awdurdodau lleol.

Cyflwyno Cam 1 fesul Awdurdod Lleol (2022-23):

		Ceredigion	Powys
RADY ysgol – y lefel uchaf o gefnogaeth	Lefel uchaf o gefnogaeth ↓ Lefel isaf o gefnogaeth	2	2
RADY – cadw mewn cysylltiad		1	-
RADY – hyfforddiant a chymell o bell		4	4
RADY – cefnogaeth wedi ei recordio		10	22 (2 grwp)
Adnoddau RADY – y lefel isaf o gefnogaeth		26	20

Mae llawer o ysgolion sy'n ymgysylltu gyda'r RADY ysgol, hyfforddiant a chymell o bell a chefnogaeth wedi ei recordio yn ystyried pob agwedd o'r rhaglen yn ofalus ac yn dechrau gwireddu 'potensial di-ben-draw' pob ifanc difreintiedig. Mae gwaith cychwynol llwyddiannus yn ymwneud â chynrychiolaeth gyfrannol a chael llinyn aur drwy eu cynlluniau datblygu mewn perthynas â chefnogaeth academiaidd a bugeiliol effeithiol. Er enghraifft, mae Ysgol Gymunedol Plascrug wedi newid sut y pleidleisir dysgwyr i'r cyngor ysgol drwy symud o broses gwbl ddemocrataidd i gyfuniad o lais disgyblion a llais staff. Yn sgil hyn mae canran uwch o ddysgwyr ifanc difreintiedig yn cael rôl fwy egniol ym mywyd yr ysgol. Yn yr un modd, mae Ysgol Uwchradd Aberteifi yn defnyddio egwyddorion y 'codiad' i ailystyried dysgwyr MATH yn yr ysgol ac yn defnyddio cyllid GDD i sicrhau bod pob ifanc difreintiedig yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd fel ariannu taith i Rydychen i godi a chynnal dyheadau.

Nodwyd gwaith ysgolion i wella tegwch yn y ddarpariaeth ac i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar ddysgwyr yn adroddiadau arolygu Estyn diweddar. Er enghraifft yn Ysgol Calon Cymru (Hydref 2022) nododd yr arolygiaeth fod *“Mae arweinwyr wedi rhoi camau gweithredu ar waith yn llwyddiannus ar gyfer lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae hyn yn bennaf trwy ddefnydd gofalus o'r grant amddifadedd disgyblion ar gyfer gofal bugeiliol, cyflenwi brechwast am ddim, ariannu ymweliadau addysgol, sicrhau bwrsariâu gan fusnes lleol a darparu gwisg ysgol”*. Yn Ysgol Uwchradd Aberteifi (Mawrth 2022) nodwyd gan Estyn, *“Ar ôl y cyfnodau clo, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n gryf ar wella'r ddarpariaeth. Yn ychwanegol, maent wedi blaenoriaethu cymorth ar gyfer disgyblion bregus i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol”*, ac

yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Trallwng (Mawrth 2022) cydnabuwyd bod uwch arweinwyr wedi “..successfully led many improvements in the school, particularly to improve pupils' welfare. For example, the very good provision for pastoral care ensures that vulnerable pupils attend school regularly and that the school meets their emotional needs effectively”.

GWERTHUSIAD O 22/23: BLAENORIAETH 4

Sicrhau bod trefniadau cynorthwyo a gwella ysgolion yn glir, ac arwain ysgolion i barhau i ddatblygu fel sefydliadau dysgu sy'n rhoi'r trefniadau gwella, gwerthuso ac atebolrwydd diwygiedig ar waith.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi addasu a mireinio eu prosesau hunan-werthuso i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd ac i alluogi'r gwerthusiad o'r effaith cynnar ar ddysgu dysgwyr a'u cynnydd. Er enghraifft, trwy alluogi llais dysgwyr i fwydo i fewn i brosesau hunan-werthuso ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r cyfrifolaeth ddilys y mae'r cwricwlwm newydd yn ei gynnig wedi caniatáu i arweinyddiaeth yr ysgolion hynny wella ar y ddarpariaeth ar gyfer eu dysgwyr yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu yr ystyrir eu bod yn agored i niwed.

Mae gan arweinwyr ysgolion ymwybyddiaeth gynyddol o'r 8 'ffactor cyfrannu' yn y Canllawiau Gwella Ysgolion a gyhoeddwyd yn 2022 a sut mae hyn yn cyd-fynd â gwireddu'r cwricwlwm newydd. Mae'r mwyafrif o ysgolion yn cymryd rhan weithredol mewn ystod o brosesau hunan-werthuso cadarn sy'n canolbwyntio ar fyfyrion ystyriaeth gofalus o'r cynnydd a wnaed gan bob dysgwr.

Mae Ceredigion a Phowys yn cynnal eu hymweliadau craidd gydag ysgolion yn annibynnol, fodd bynnag, ceir egwyddorion cyffredin y cedwir atynt ar draws y cydweithio, ac sy'n cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, sy'n awgrymu bod ysgolion yn defnyddio'r ddau gwestiwn canlynol fel man cychwyn ar gyfer gweithgareddau gwella:

1. Pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd yn yr egwyddorion cynnydd, gan eu cefnogi i ddatblygu tuag at y pedwar diben?
2. A yw cyflymder cynnydd dysgwyr yn unol â disgwyliadau athrawon a'r cwricwlwm?

O ganlyniad, bu i Geredigion a Phowys sicrhau cysondeb ar yr elfennau canlynol o'u ymweliadau cymorth a her blynyddol:

- cynnydd dysgwyr
- gweithredu'r cwricwlwm newydd
- gweithredu'r bil ADY newydd
- ffocws ar y strategaeth amddifadedd, tegwch a lles
- pecynnau cymorth pwrpasol wedi'u cynllunio

Mae pob Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn cael eu craffu fel rhan o'r ymweliad gefnogaeth craidd cyntaf yng nghyd â chynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a chynllunio blaenoriaethau'r flwyddyn academiaidd nesaf yn cael eu trafod yn ystod ymweliad craidd dau. Mae blaenoriaethau ysgolion yn cael eu coladu er mwyn cynorthwyo'r cynllunio pwrpasol a'r cynnig dysgu proffesiynol.

Cafodd blaenoriaethau 2022 – 2023 pob ysgol ar draws Ceredigion a Phowys eu coladu a'u rhannu gyda swyddogion gwella / cefnogi ysgolion PACC er mwyn gallu

teilwra cefnogaeth wedi'i thargedu a phwrpasol ar gyfer anghenion unigol yr ysgolion. Lle'n bosibl hefyd, gwnaed ymdrech i annog cefnogaeth ysgol i ysgol le'r oedd ymarfer effeithiol wedi'i nodi.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r blaenoriaethau a nodwyd ar draws PACC ar gyfer 2022 – 2023:

2022 - 2023 Blaenoriaethau / Priorities	Ceredigion	Powys	PACC / MEWP	ALI / LAs	PACC / MWEF
Adborth / Feedback	4	7	11	✓	✓
ADY / ALN	30	11	41	✓	
Amddifadedd / Deprivation	4	2	6	✓	✓
Arall / Other	1	19	20	✓	
Arweinyddiaeth / Leadership	15	30	45	✓	✓
Asesu / Assessment	8	29	37	✓	✓
CiG / CfW	33	33	66	✓	✓
Cyllid / Finance	0	4	4	✓	
Cymreictod	5	24	29	✓	
Darllen / Reading	8	13	21	✓	
Digidol / Digital	1	6	7	✓	
Diogelu / Safeguarding	0	1	1	✓	
Dysgu ac Addysgu / T&L	11	26	37	✓	✓
Dysgu Sylfaen / Foundation Learning	2	1	3	✓	
Llywodraethwyr / Governors	1	10	11	✓	
Iechyd & Diogelwch / H&S	0	2	2	✓	
Llafaredd / Oracy	10	2	12	✓	
Lles / Well-being	20	23	43	✓	✓
Llythrennedd / Literacy	5	19	24	✓	
Medrau / Skills	4	11	15	✓	
Presenoldeb / Attendance	0	3	3	✓	
Rhifedd / Numeracy	8	36	44	✓	
RVE: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg / Religion, Values and Ethics	0	4	4	✓	
Safonau / Standards	0	8	8	✓	
Sillafu / Spelling	1	1	2	✓	
Ysgrifennu / Writing	1	14	15	✓	

Mae'r ymweliad cefnogaeth dau yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd y ddarpariaeth sy'n rhoi cyfleoedd i werthuso effaith y dysgu proffesiynol a ddarperir a llywio'r cynllunio ar gyfer y gefnogaeth a'r blaenoriaethau i'r flwyddyn academiaidd olynol.

GWERTHUSIAD O 22/23: BLAENORIAETH 5**Sicrhau trefniadau mewnol effeithlon, a chyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid.**

Ar ôl ystyriaeth ar lefel Cabinet Awdurdod Lleol Ceredigion a Phowys, cytunwyd ar y Memorandwm o Ddealltwriaeth ar y 11^{eg} o Ionawr 2022 a 18^{fed} o Ionawr 2022 yn eu tro i sicrhau bod y ddau Gyngor yn gweithio ar y cyd ac â llais rhanbarthol a chenedlaethol cryf er budd ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr Canolbarth Cymru. O ganlyniad, sicrhawyd llywodraethu a dealltwriaeth llwyddiannus o'r rolau a'r cyfrifoldebau gan y rhan fwyaf o swyddogion allweddol gyda chydweithio cryf o ran y llwybrau arweinyddiaeth, diwygio'r cwricwlwm a'r gefnogaeth i liniaru effaith tldi ac amddifadedd yn nodwedd gref. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod nad yw pob ysgol ar draws Ceredigion a Phowys yn deall gwaith y bartneriaeth yn llawn ar hyn o bryd.

Ar adegau priodol ar hyd y flwyddyn, mae prif swyddogion addysg wedi adrodd ar flaenoriaethau a chynnydd y gwaith cydweithredol i bwllgorau craffu a Chabinet Ceredigion a Phowys. O ganlyniad, trwy gyfrwng y pwyllgorau craffu a'r Cabinet mae Awdurdodau Lleol Ceredigion a Phowys wedi herio'n llwyddiannus ar y cymorth i ddarperir i ysgolion o ran diwygio'r cwricwlwm, lefel yr ymgysylltu a'r effaith ar ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr.

Mae gan PACC lais a pherthynas cryf gyda Llywodraeth Cymru a'r Rhanbarthau / Partneriaethau eraill ledled Cymru. O ganlyniad, profir cydweithio cadarnhaol i lywio datblygiadau ar bob lefel, gan gynnwys gweithgorau gweithio trawsranbarthol lle mae ymarfer effeithio o ysgolion PACC wedi'i rannu ar lwyfan cenedlaethol.

Er mwyn cefnogi gwaith PACC, penodwyd Arweinydd Strategol a dechreuodd yn ei rôl ym mis Ionawr 2023. Ers ei phenodiad, gwelwyd cydweithio llwyddiannus rhwng swyddogion Ceredigion a Phowys o ran sefydlu gwefan PACC ac wrth baratoi hunan werthusiad a chynllun busnes i sicrhau cydberchenogaeth ar y blaenoriaethau i sicrhau effaith gadarnhaol ar ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu'n llawn effaith y gwaith a a dim digon o amser i ddatblygu llais PACC yn llawn ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac wrth sefydlu grŵp cyfeirio penaethiaid.

TREFNIADAU DARPARIAETH

Yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel a osodwyd o fewn ‘Cenhadaeth ein cenedl: Safonau a dyheadau uchel i bawb’¹ (Mawrth 2023), mae’r cynllun busnes hwn wedi ei seilio y model cenedlaethol ar chwech amcan Addysg Genedlaethol a’r Iaith Gymraeg gyffredinol er mwyn cyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb, gan fynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad ac uchelgais. Cefnogir pob dysgwr, beth bynnag eu cefndir, i fod yn ddinesydd iach, sy’n ymgysylltu, sy’n fentrus ac sy’n foesebol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

I gyflawni’r nod hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod allan chwe amcan lefel uchel a’u ymrwymiad i gyrraedd pob un.

Amcan	Yr hyn a wnawn
1. Dysgu am oes fel bod pawb yng Nghymru yn dysgu, ac yn parhau i ddysgu, gan ddatblygu eu gwybodaeth a’u sgiliau, a chymryd rhan mewn profiadau sy’n berthnasol i’w bywydau heddiw ac yn y dyfodol.	Sicrhau bod yr holl ddysgu’n cael ei arwain gan bedwar diben y cwricwlwm, drwy gydweithio ar draws darparwyr a chyda diwydiannau a chyflogwyr
2. Chwalu rhwystrau er mwyn sicrhau bod cyfleoedd a deilliannau addysg rhagorol yn gallu cael eu cyflawni gan bob dysgwr, o bob oed, mewn ystafelloedd dosbarth, ar-lein, ac yn y gwaith.	Drwy adnabod yn gynnar, drwy gymorth a thrwy gamau gweithredu wedi’u targedu, sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr wybodaeth, y sgiliau a’r profiadau i fod yn ddinesydd gweithredol, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
3. Profiad addysg cadarnhaol i bawb , gyda dysgwyr a staff yn cael cefnogaeth gyda’u lles a’u gwydnwch, sy’n hanfodol ar gyfer gwella deilliannau addysg a chyfleoedd bywyd	Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus, yn barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, mewn mannau dysgu sy’n gefnogol, sy’n ddiogel, sy’n gynhwysol ac sy’n rhydd o wahaniaethu a bwlio.
4. Addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel , lle mae pawb yn cael budd o’r dysgu proffesiynol gorau fel y gallant gefnogi llwyddiant pob dysgwr, yn enwedig y rhai sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol	Dysgu a chymorth proffesiynol gwarantedig i’r holl staff gydol eu gyrfa, o’r hyfforddiant cychwynnol hyd at lefel arweinyddiaeth, sy’n canolbwyntio ar wireddu pedwar diben y cwricwlwm, a chapasiti a galluogrwydd i gefnogi llwyddiant pob dysgwr.
5. Dysgu yn y gymuned , gyda sefydliadau cryf yn ymgysylltu, yn integreiddio ac yn cael eu grymuso gan eu cymunedau	Grymuso pob dysgwr, teulu a chymuned i feithrin cydberthynas a phartneriaeth cryf â darparwyr addysg, er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i’r afael ag anfantais ac yn darparu addysg o’r radd flaenaf yn lleol ac yn genedlaethol.

¹ [Cenhadaeth ein cenedl | LLYW.CYMRU](#)

<p>6. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, gan roi'r cyfle i bob dysgwr gael mynediad cyfartal i'r iaith a'r cyfle i wireddu ei botensial</p>	<p>Annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y system addysg, fel rhan annatod o Gwricwlwm i Gymru, ein huchelgeisiau Cymraeg 2050 ac ehangu'r ddarpariaeth sydd ar gael ôl-16 i astudio drwy'r Gymraeg a chyfleoedd i ddysgu'r iaith fel dinasyddion gweithredol a gweithgar.</p>
--	---

I gyflawni nod ac amcanion strategol lefel uchel Llywodraeth Cymru, derbynir amrywiaeth o grantiau. Mae gwaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru wedi ei ariannu gan y Grant Consortia Rhanbarthol (RCG – gweler tudalennau 50 - 51). Pwrpas y cyllid hwn yw cyflawni dyheadau a blaenoriaethau Cymru ar gyfer ysgolion ac addysg yn unol â 'Cenhadaeth ein cenedl: Safonau a dyheadau uchel i bawb'. Bwriad yr grant RCG yw:

1. Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn botensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn.
2. Cyd-lunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, medrau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithio) gyda dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bwysig - mae cymwysterau yn rhan allweddol o hyn.
3. Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr.
4. Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg yr holl staff.
5. Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy'n dysgu.
6. Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny.
7. Bod yn ganolog i'w cymunedau – rydym am feithrin gwell perthynas rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyflawniad addysgol a chyflogaeth ardderchog, y camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant.
8. Gwranddo ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.

BLAENORIAETHAU 3 MLYNEDD: 2023 - 2026

Wrth bennu blaenoriaethau tair mlynedd a 23/24 Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru rhoddwyd ystyriaeth gofalus ar flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Maent yn cynnwys:

Chwe Amcan Addysg Genedlaethol a'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd:

1. **Dysgu am oes** fel bod pawb yng Nghymru yn dysgu, ac yn parhau i ddysgu, gan ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, a chymryd rhan mewn profiadau sy'n berthnasol i'w bywydau heddiw ac yn y dyfodol.
2. **Chwalu rhwystrau** er mwyn sicrhau bod cyfleoedd a deilliannau addysg rhagorol yn gallu cael eu cyflawni gan bob dysgwr, o bob oed, mewn ystafelloedd dosbarth, ar-lein, ac yn y gwaith.
3. **Profiad addysg cadarnhaol i bawb**, gyda dysgwyr a staff yn cael cefnogaeth gyda'u lles a'u gwydnwch, sy'n hanfodol ar gyfer gwella deilliannau addysg a chyfleoedd bywyd
4. **Addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel**, lle mae pawb yn cael budd o'r dysgu proffesiynol gorau fel y gallant gefnogi llwyddiant pob dysgwr, yn enwedig y rhai sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol
5. **Dysgu yn y gymuned**, gyda sefydliadau cryf yn ymgysylltu, yn integreiddio ac yn cael eu grymuso gan eu cymunedau
6. **Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd**, gan roi'r cyfle i bob dysgwr gael mynediad cyfartal i'r iaith a'r cyfle i wireddu ei potensial

Wyth ffactor gyfrannol – fel a osodwyd yn rhan 1 o'r Grant Consortia Rhanbarthol ar gyfer 23/24:

1. Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn potensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn.
2. Cyd-lunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, medrau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithio) gyda dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bwysig - mae cymwysterau yn rhan allweddol o hyn.
3. Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr.
4. Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg yr holl staff.
5. Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy'n dysgu.
6. Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny.
7. Bod yn ganolog i'w cymunedau – rydym am feithrin gwell perthynas rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyflawniad addysgol a chyflogaeth ardderchog, y camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant.
8. Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.

National Resource for Evaluation and Improvement (NR:EI)

School improvement guidance: framework for evaluation, improvement, and accountability

Journey to curriculum roll out and work of CAMAU.

Schools as learning organisations

O fewn PACC, mae swyddogion pob un o'r meysydd blaenoriaeth yn gweithio ar y cyd wrth gyflawni blaenoriaethau y cynllun hwn, sef:

- Diwygio'r cwricwlwm
- Llwybrau arweinyddiaeth
- Dysgu proffesiynol i gynorthwyr addysg
- Strategaeth ecwiti a thlodi gwledig

Mae Awdurdodau Lleol Ceredigion a Phowys yn parhau i gynnal tîm craidd o staff cymorth a fydd yn gweithio ar y cyd i:

- adnabod ein hysgolion yn dda, yn cydnabod eu cyd-destunau amrywiol ac yn parhau i ddatblygu arferion gwaith rhagorol;
- canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr bob amser, o fewn amgylchedd ysgol cynhwysol, tra'n sicrhau bod plant a phobl ifanc Ceredigion a Phowys yn ddysgwyr uchelgeisiol sy'n unigolion iach a hyderus, yn gyfranwyr mentrus ac yn ddinasyddion moesegol a gwybodus;
- cefnogi arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, sicrhau ansawdd a sicrhau bod gwelliannau yn cael eu cynllunio, eu gweithredu, eu gwreiddio a'u cynnal yn dda;
- hwyluso cynnig dysgu proffesiynol rhagorol drwy'r llwybr proffesiynol cyfan, a fydd yn canolbwyntio ar addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth ar bob lefel;
- sicrhau arfer myfyriol, ac ymgysylltu ag ymchwil ac ymholi;
- gwreiddio diwylliant o gymell a mentora ar bob lefel mewn ysgolion;
- datblygu dull cydweithredol o wella a hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol at ddibenion datblygu a chyd-adeiladu, gyda'r nod o weithio tuag at system hunan-wella; ac
- adnabod a dysgu gan y gorau ar draws Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru a'r gymuned addysg ehangach, a broceri partneriaethau penodol a pherthnasol ar gyfer ein hysgolion.

Bydd ysgolion yn cael eu cefnogi i gydweithio ar feysydd blaenoriaeth ar y cyd a datblygu egwyddorion Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu, 'Camau ar gyfer y dyfodol' a 'Camau i'r dyfodol' drwy rwydweithiau a chadwyni a sefydlir i hwyluso dull cydweithredol o wella ysgolion.

Yn ogystal â bodloni blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru, mae Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru yn cyd-weithio gydag Awdurdodau Lleol Ceredigion a Phowys ac felly bydd blaenoriaethau hefyd yn cyd-fynd â'u hamcanion lleol eu hunain. Mae'r amcanion hyn yn cael eu cofnodi o fewn y cynlluniau canlynol:

<p style="text-align: center;">Ceredigion</p> <p style="text-align: center;">Lefel 1: Strategaeth Gorfforaethol 2022 - 2027</p>	<p style="text-align: center;">Powys</p> <p style="text-align: center;">Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol</p>
<ol style="list-style-type: none"> 1. Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth 2. Creu cymunedau gofalgarg ac iach 3. Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu 4. Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â gilydd. 	<ol style="list-style-type: none"> 5. Byddwn yn gwella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau a sut i'w derbyn fel y gall pobl wneud dewisiadau gwybodus. 6. Byddwn yn cefnogi cyflogaeth dda, gynaliadwy o ansawdd da gan ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a gweithio tuag at fod yn gyflogwr cyflog byw gwirioneddol achrededig. 7. Byddwn yn gweithio i ddelio â thlodi ac anghydraddoldeb i gefnogi lles pobl Powys.
<p style="text-align: center;">Lefel 2: Ysgolion a Diwylliant</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwella ysgolion • Isadeiledd ac adnoddau • Atebolrwydd a chynnydd • ADY, ymddygiad a lles • Diwylliant <p>Amcan lles corfforaethol 2: Creu cymunedau gofalgarg ac iach.</p>	<p style="text-align: center;">Cynllun datblygu'r gwasanaeth addysg</p>
<p style="text-align: center;">Cynlluniau Lefel 3:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwricwlwm • Arweinyddiaeth a Llywodraethant • Cefnogi ysgolion i wella • Llythrennedd, Rhifedd a TGCh • Sefydliadau nas-gynhelir • Ôl 16 • CSGA • Difreintedd • Lles 	<p style="text-align: center;">Cynlluniau tîm:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol • Lles a chynhwysiad • Strategaeth gwella ysgolion uwchradd • Gwella ysgolion cynradd ac arbennig

Fel a nodwyd yn y cyflwyniad ar dudalen 3, mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Ceredigion a Phowys wedi cytuno i gydweithio yn y meysydd canlynol:

1. Datblygiad y Cwricwlwm
2. Datblygiad Proffesiynol ac Ymholiad
3. Ecwiti ac amddifadedd gwledig
4. Llwybrau arweinyddiaeth
5. Cefnogaeth i athrawon newydd gymhwyso / sefydlu ac athrawon gyfa cynnar
6. Llwybrau datblygiad Cynorthwyr Addysg



BLAENORIAETHAU PACC: 2023 – 2026

1. Darparu cymorth cryf i bob ysgol a'u cymunedau yn unol â'r canllawiau gwella ysgolion fel bod ysgolion yn rhoi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, er mwyn sicrhau **safonau ac uchelgeisiau uchel** i bawb.
2. Bod pob ysgol ar draws PACC wedi mabwysiadu **cynlluniau cwricwlwm** lefel ysgol a chlwtwr **effeithiol** a **gweithdrefnau asesu sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau** fel y gall pob dysgwr gyflawni i'w llawn botensial.
3. Cefnogi **lles ac ymarfer pob ymarferydd** ar draws PACC drwy brofiadau **dysgu proffesiynol o ansawdd uchel** fel bod yr holl staff yn fyfyrion ac yn ymgysylltu'n llawn ag ymholiad i **gryfhau eu sgiliau addysgeg fel bod pob dysgwr yn gwneud y cynnydd disgwylidig.**
4. **Cefnogi arweinwyr** ar bob lefel i ddod yn arweinwyr system cryf sy'n arwain at ysgolion sy'n perfformio'n uchel ac yn fyfyrion lle mae pob ymarferydd a dysgwr yn ffynnu.
5. Sicrhau **llywodraethu ac atebolrwydd cryf** PACC fel bod y blaenoriaethau uchod yn cael eu cwrdd.

BLAENORIAETHAU PACC YN 2023 – 2024

Mae cefnogi ein hysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn y cyfleoedd gorau oll i ffynnu yn eu bywydau ac yn eu cymunedau lleol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2023 – 2024.

Deallwn y bydd adferiad o effaith y pandemig yn cymryd blynyddoedd lawer, ac felly mae cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr ar bob lefel yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Byddwn yn cefnogi ein hysgolion i gynllunio'n effeithiol ar gyfer cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i bob ymarferwr, beth bynnag fo'u cyfnod yn eu gyrfa i wella'r ddarpariaeth ar gyfer lles a chynnydd dysgwyr a sicrhau bod prosesau hunan-werthuso yn onest ac yn gywir wrth nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella.

O werthu ein gwaith o 2022 – 2023, ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a'r telerau ac amodau a nodir yn Atodiad 1 a 2 y Grant Consortia Rhanbarthol (RCG), bydd Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2023 – 2024:

TROSOLWG O FLAENORIAETHAU 2023 - 2024

1. Cefnogi holl ysgolion PACC i ddatblygu **dulliau dysgu ac addysgu effeithiol** er mwyn sicrhau bod **dysgwyr yn gwneud y cynnydd** disgwylidig.
2. Cefnogi holl ysgolion PACC i sicrhau bod **dylunio a gweithrediad y cwricwlwm o ansawdd uchel**, gan adeiladu arferion addysgeg, dilyniant ac asesu effeithiol gyda ffocws penodol ar fedrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
3. Datblygu cefnogaeth bellach i ysgolion i sefydlu ymagwedd ysgol gyfan wrth gefnogi **lles dysgwyr ac ymarferwyr a sicrhau ecwiti** o ran profiadau er mwyn **lleihau effaith tloidi ac amddifadedd ar gynnydd dysgwyr**.
4. Cefnogi ymarferwyr PACC i ddilyn **llwybrau arweinyddiaeth a datblygiad** cenedlaethol a lleol fel bod arferion pob ymarferydd PACC yn gryf ac effeithiol gan **ddyfanwadu'n gadarnhaol ar les a chynnydd dysgwyr**.
5. Datblygu ymhellach **drefniadau** cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a **llywodraethu cryf** PACC.

CYNLLUN CYFLAWNI 2023 – 2024

Mae'r 5 blaenoriaeth ar gyfer 23/24 yn cyd-fynd â'r meysydd canlynol yn atodiad 2 o'r RCG:

		datblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwylidig	dylunio a gweithrediad y cwricwlwm o ansawdd uchel	ymagwedd ysgol gyfan wrth gefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr a sicrhau ecwiti o ran profiadau er mwyn lleihau effaith tlodi ac amddifadedd ar gynnydd dysgwyr	Ilwybrau arweinyddiaeth a datblygiad cenedlaethol a lleol fel bod arferion pob ymarferydd PACC yn gryf ac effeithiol gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar les a chynnydd dysgwyr	Datblygu ymhellach drefniadau cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraethu cryf PACC.
A. Cymorth cwricwlwm ac asesu	Gwella gwybodaeth ac ymarfer wrth ddylunio, asesu a sicrhau dilyniant o fewn y cwricwlwm	✓	✓	✓		✓
	Hyrwyddo ymgysylltiad uniongyrchol ysgolion â thrafodaethau polisi ac ymarfer drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol	✓	✓			✓
	Gwella medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yng Nghymru fel y nodir yn Sgiliau Traws Gwricwlwm	✓	✓			✓
	Ymateb yn adeiladol i flaenoriaethau presennol a datblygol y llywodraeth ar gyfer cefnogi'r cwricwlwm ysgol	✓	✓			✓
	Adeiladu capasiti yr haen ganol i gefnogi ysgolion ac Unedau Cyfeirio drwy ddiwygio'r cwricwlwm			✓		✓

		datblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwylidig	dylunio a gweithrediad y cwricwlwm o ansawdd uchel	ymagwedd ysgol gyfan wrth gefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr a sicrhau ecwiti o ran profiadau er mwyn lleihau effaith tloedi ac amddifadedd ar gynnydd dysgwyr	llywybrau arweinyddiaeth a datblygiad cenedlaethol a lleol fel bod arferion pob ymarferydd PACC yn gryf ac effeithiol gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar les a chynnydd dysgwyr	Datblygu ymhellach drefniadau cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraethu cryf PACC.
B. Addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel	Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad dysgu	Cyllid yn cael ei rannu yn uniongyrchol i ysgolion er mwyn ymgysylltu â dysgu proffesiynol				
	Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio ym maes cynllunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn medrau ymholi ac addysgeg yr holl staff (NPEP)		✓			✓
	Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferydd mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad sy'n dysgu		✓			✓
	Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio ym maes cynllunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn medrau ymholiadau ac addysgeg yr holl staff	✓	✓			✓
	Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad sy'n dysgu. Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu Lefel A ac WBQ Sefydlu / Cymorth Gyrfa Cynnar				✓	✓
	Ymgorffori myfyrdod, hunan-werthuso a gwella mewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth ysgol dda fel rhag-amod ar gyfer hynny				✓	✓
	Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd	✓				✓
	Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed	✓	✓	✓	✓	✓

<p>Maes Blaenoriaeth 1</p> <p>Priority Area 1</p>	<p>Cefnogi holl ysgolion PACC i ddatblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwylledig.</p>
<p>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru Welsh Government Priorities</p>	<p>RCG - Rhan o'r wyth ffactor gyfrannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn botensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn. • Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr. • Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg yr holl staff. • Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. • Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny. • Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.
<p>Prif Swyddog (ion) Lead Officer (s)</p>	<p>Chris Davies, Sally Llewellyn, Aled Rumble, Rhianydd James & Elen Gwenllian Davies</p>
<p>Rhesymeg Rationale</p>	<p>Ledled Ceredigion a Phowys nodir arferion addysgeg cryf, fodd bynnag, o fewn ac ar draws PACC ceir gormod o amrywiaeth o hyd o ran ansawdd y dysgu a'r addysgu.</p> <p>Mae dulliau addysgol cryf ac effeithiol yn ganolog i wella cynnydd a chanlyniadau dysgwyr, ac mae ymchwil wedi dangos sut y gall addysgu o ansawdd uchel wneud y gwahaniaeth mwyaf i ddysgu, ac yn y pen draw lleihau'r bwlch anfantais. Er mwyn cefnogi pob ysgol ac ymarferydd i ddarparu addysgu o ansawdd uchel, mae'n bwysig eu bod yn cael datblygiad proffesiynol effeithiol. Fel yr eglura gan Rauch a Coe gellid dadlau mai dyma'r peth pwysicaf y gall athrawon ac arweinwyr ysgol ganolbwyntio arno i wneud gwahaniaeth ym maes dysgu plant. Yn fwy na hynny, nid yw ansawdd yr</p>

	<p>addysgu yn sefydlog: gellir gwella athrawon, a gellir eu gwella drwy ddatblygiad proffesiynol effeithiol.²</p> <p>Mae cefnogi dysgwyr i symud ymlaen a chyflawni yn hanfodol ac un agwedd o addysgu effeithiol yw darparu adborth effeithiol.</p>
<p>Bwriad cyffredin</p> <p>Overarching intention</p>	<p>Darparu dysgu proffesiynol cyffredinol ac wedi'i dargedu ar gyfer ysgolion, lleoliadau nas gynhelir a chlystyrau, fel bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr holl dysgu proffesiynol a ddarperir o ansawdd uchel ac effeithiol gan arwain at allu addysgu gwell ymarferwyr • cefnogaeth i ysgolion i gynllunio a gwneud yr amser a'r lle ar gyfer dysgu proffesiynol yn effeithiol fel bod y grant dysgu proffesiynol yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl gorau gyda diwylliant cadarnhaol o welliant parhaus ym mhob ysgol • y rhan fwyaf o ysgolion yn ymgysylltu ac yn hyderus yn y defnydd effeithiol o'r adnodd cenedlaethol "Cefnogi Dysgwyr Bregus trwy Addysgu a Dysgu effeithiol"³ fel bod dysgu proffesiynol ar gyfer pob ymarferydd wedi'i strwythuro a'i hwyluso i gynyddu eu gallu addysgu • gan ymarferwyr arferion effeithiol i gefnogi gwelliant mewn addysgu a dysgu gyda ffocws ar adborth effeithiol ac asesu ffurfiannol.
<p>Meini Prawf Llwyddiant</p> <p>Success Criteria</p>	<p><u>Tymor byr:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu cryf gan y rhan fwyaf o ysgolion PACC yn y rhaglen dysgu proffesiynol • Adborth cadarnhaol gan y grŵp cyfeirio penaethiaid ynglŷn â chynnig dysgu proffesiynol PACC. <p><u>Hir dymor:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwell arferion addysgu a dysgu ar draws pob ysgol PACC • Mae triongli gydag adroddiadau YGY yn dangos cynnydd mewn arferion addysgu a dysgu ar draws ysgolion PACC

² [Effective Professional Development | EEF \(educationendowmentfoundation.org.uk\)](https://www.educationendowmentfoundation.org.uk)

³ [Supporting Vulnerable Learners](#)

- Mae canlyniadau arolygiadau gan Estyn o ysgolion Ceredigion a Phowys yn dangos gostyngiad yn nifer yr ysgolion mewn categori statudol ac yn adnabod arfer da i'r rannu trwy astudiaethau achos. (Ym mis Ebrill 2023, roedd dwy ysgol PACC mewn categori statudol (Powys: 2 | Ceredigion: 0))
- Canlyniadau dysgwyr cryf – canlyniadau CAP9 ysgolion PACC.

<p>Maes Blaenoriaeth 2</p> <p>Priority Area 2</p>	<p>Cefnogi holl ysgolion PACC i sicrhau bod dylunio a gweithrediad y cwricwlwm o ansawdd uchel, gan adeiladu arferion addysgeg, dilyniant ac asesu effeithiol gyda ffocws penodol ar fedrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.</p>
<p>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru Welsh Government Priorities</p>	<p>RCG - Rhan o'r wyth ffactor gyfrannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn botensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn. • Cyd-lunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, medrau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithio) gyda dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bwysig - mae cymwysterau yn rhan allweddol o hyn. • Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg yr holl staff. • Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. • Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny.
<p>Prif Swyddog (ion)</p> <p>Lead Officer (s)</p>	<p>Sally Llewellyn, Aled Rumble, Rhianydd James, Elen Gwenllian Davies & Chris Davies,</p>
<p>Rhesymeg</p> <p>Rationale</p>	<p>Ym mis Medi 2022, ledled Ceredigion a Phowys, mabwysiadodd holl ysgolion / cyfnodau cynradd a chwech ysgol / cyfnod uwchradd, pob oed ac arbennig (un yng Ngheredigion a 5 ym Mhowys) y Cwricwlwm i Gymru. O fis Medi 2023 ymlaen bydd pob ysgol / cyfnod yn mabwysiadu'r cwricwlwm newydd yn llawn. Wrth baratoi ar gyfer mis medi 2022 paratôdd Llywodraeth Cymru ganllaw i ysgolion 'Y daith i 2022'⁴ a'r newidiadau i ganllawiau'r</p>

⁴ [WG41302 Curriculum for Wales document english \(gov.wales\)](#)

	<p>Cwricwlwm i Gymru o fis Ionawr 2023⁵. Wrth i ysgolion gychwyn ar y ‘Daith tu hwnt i 2022’, mae’n bwysig bod PACC yn cefnogi ysgolion yn llawn wrth sicrhau eu bod yn gwerthuso eu cynlluniau a darpariaeth yn ofalus ac yn ymgymryd â mireinio eu cwricwlwm a’u cynlluniau asesu parhaus i sicrhau bod pob ysgol PACC yn rhoi’r profiadau a’r canlyniadau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau, er mwyn sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb.</p>
<p>Bwriad cyffredin Overarching intention</p>	<p>Darparu dysgu proffesiynol a chymorth cyffredinol, pwrpasol ac wedi’i dargedu i ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys trwy glystyrau, fel bod pob ysgol PACC yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hyderus yn eu dyluniad o’r cwricwlwm wedi ei arwain gan y pedwar diben a’u prosesau sicrhau ansawdd • sicrhau bod y cwricwlwm ysgol a’r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn hynod ddiddorol ac yn darparu profiadau dysgu eang a chytbwys yn y gwersi ac yn allgyrsiol, ac yn cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd uchel a chyson o ran eu dysgu a lles • gweithio’n dda gydag ysgolion clwstwr / bwydo, fel bod cynllunio a dealltwriaeth gref ar sut i adeiladu ar ddysgu blaenorol dysgwyr er mwyn sicrhau cynnydd parhaus • hyderus yn eu cynllunio, mapio ac adrodd am ddilyniant dysgwyr.
<p>Meini Prawf Llwyddiant Success Criteria</p>	<p><u>Tymor byr:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu cryf gan y rhan fwyaf o ysgolion PACC yn y rhaglen dysgu proffesiynol • Adborth cadarnhaol gan y grŵp cyfeirio penaethiaid ynglŷn â chynnig dysgu proffesiynol PACC. <p><u>Hir dymor:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Arferion effeithiol yn cael ei nodi gan ysgolion PACC ar gyfer ei rannu ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol

⁵ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>

- Canlyniadau cadarnhaol ac astudiaethau achos yn cael eu adnabod gan arolygiadau Estyn
- Mae triongli gydag adroddiadau YGY yn dangos cynnydd cryf wrth gyflwyno'r cwricwlwm gydag effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

<p>Maes Blaenoriaeth 3</p> <p>Priority Area 3</p>	<p>Datblygu cefnogaeth bellach i ysgolion i sefydlu ymagwedd ysgol gyfan wrth gefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr a sicrhau ecwiti o ran profiadau er mwyn lleihau effaith tlodi ac amddifadedd ar gynnydd dysgwyr.</p>
<p>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru Welsh Government Priorities</p>	<p>WG2: Cymru gydnerth WG3: Cymru Iachach WG5: Cymru o gymunedau cydlynol</p> <p>RCG - Rhan o'r wyth ffactor gyfrannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn botensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn. • Cyd-lunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, medrau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithio) gyda dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bwysig - mae cymwysterau yn rhan allweddol o hyn. • Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr. • Bod yn ganolog i'w cymunedau – rydym am feithrin gwell perthynas rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyflawniad addysgol a chyflogaeth ardderchog, y camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant. • Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.
<p>Prif Swyddog (ion) Lead Officer (s)</p>	<p>Gareth Lewis</p>
<p>Rhesymeg</p> <p>Rationale</p>	<p>I wella lles a chynnydd pob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir fel eu bod yn barod ar gyfer y camau nesaf yn eu bywyd, boed yn yr ysgol, addysg bellach, prentisiaethau neu'r byd gwaith.</p>

<p style="text-align: center;">Bwriad cyffredin</p> <p style="text-align: center;">Overarching intention</p>	<p>I gefnogi pob ysgol PACC i ganolbwyntio ar gefnogi pob dysgwr i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ysgol, dysgu a lles a sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad teg at addysg a chyfleoedd teg i'w cynnwys yn yr ysgol a gweithgareddau allgyrsiol.</p> <p>Cefnogi dysgwyr bregus a'u teuluoedd trwy gwella ymgysylltiad teuluoedd gyda'r ysgol a gwella'r gefnogaeth o fewn y gymuned a thrwy aml-asiantaethau.</p> <p>Cefnogi ysgolion wrth sefydlu a gwreiddio dull ysgol gyfan o les emosiynol a meddyliol yn eu hysgolion fel bod pob arweinydd ac ymarferydd yn ymgorffori ethos ysgol gyfan i sicrhau amgylchedd cefnogol lle mae pob dysgwr yn gallu cymryd rhan yn effeithiol yn eu dysgu.</p>
<p style="text-align: center;">Meini Prawf Llwyddiant</p> <p style="text-align: center;">Success Criteria</p>	<p><u>Tymor byr:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu cryf gan y rhan fwyaf o ysgolion PACC yn y rhaglen dysgu proffesiynol • Adborth cadarnhaol gan y grŵp cyfeirio penaethiaid ynglŷn â chynnig dysgu proffesiynol PACC. • Mae'r rhan fwyaf o ysgolion PACC yn ymgymryd ac yn ymateb yn gadarnhaol i ganlyniadau'r data SHRN. <p><u>Hir dymor:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Canlyniadau cadarnhaol ac astudiaethau achos yn cael eu adnabod gan arolygiadau Estyn • Mae triongli gydag adroddiadau YGY yn dangos bod ysgolion PACC wedi sefydlu diwylliant cyson, lle mae cynnydd a lles disgyblion yw'r brif flaenoriaeth • Ffigyrau presenoldeb gwell ar gyfer ysgolion PACC (data presenoldeb yn cael ei ail gasglu gan Llywodraeth yn dilyn cyfnod o oedi yn ysgol y pandemig) • Canlyniadau dysgwyr cryf – canlyniadau CAP9 ysgolion PACC.

BLAENORIAETH 4 | PRIORITY 4

<p>Maes Blaenoriaeth 4</p> <p>Priority Area 4</p>	<p>Cefnogi ymarferwyr PACC i ddilyn llwybrau arweinyddiaeth a datblygiad cenedlaethol a lleol fel bod arferion pob ymarferydd PACC yn gryf ac effeithiol gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar les a chynnydd dysgwyr.</p>
<p>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru Welsh Government Priorities</p>	<p>RCG - Rhan o'r wyth ffactor gyfrannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. • Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny.
<p>Prif Swyddog (ion)</p> <p>Lead Officer (s)</p>	<p>Sarah Perdue, Alwyn Ward & Dafydd Iolo Davies</p>
<p>Rhesymeg</p> <p>Rationale</p>	<p>Mae arweinyddiaeth gref ac effeithiol ar bob lefel yn hollbwysig ar gyfer sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bob dysgwr. Ar draws PACC cydnabyddir mai ychydig iawn o symudiad sydd mewn staff ac felly mae adnabod a chefnogi arweinwyr ar bob lefel yn gynnar yn bwysig.</p>
<p>Bwriad cyffredin</p> <p>Overarching intention</p>	<p>I godi ymwybyddiaeth gan benaethiaid, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, a chyrrff llywodraethu o lwybrau arweinyddiaeth cenedlaethol a rhanbarthol sydd ar gael. Trwy ddysgu proffesiynol effeithiol, cymell a mentora, bydd gan arweinwyr ar bob lefel y sgiliau a'r wybodaeth i ddefnyddio amrywiaeth o arddulliau i gynnal safonau uchel ar draws pob agwedd ar eu gwaith. Bydd arweinwyr effeithiol yn grymuso pob aelod o staff i gymryd risgiau priodol a gwneud dewisiadau gwybodus yn seiliedig ar werthoedd, ymddygiad a gweledigaeth yr ysgol.</p>
<p>Meini Prawf Llwyddiant</p> <p>Success Criteria</p>	<p><u>Tymor byr:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu cryf a chadarnhaol gyda rhaglenni datblygu ac arweinyddiaeth ar bob lefel • Adnabod ymarferwyr cryf yn gynnar.

Hir dymor:

- Canlyniadau cadarnhaol ac astudiaethau achos yn cael eu adnabod gan arolygiadau Estyn
- Mae triongli gydag adroddiadau YGY yn dangos bod ysgolion PACC wedi sefydlu diwylliant cyson, lle mae cynnydd a lles disgyblion yw'r brif flaenoriaeth.

<p>Maes Blaenoriaeth 5</p> <p>Priority Area 5</p>	<p>Datblygu ymhellach drefniadau cyfathrebu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraethu cryf PACC</p>
<p>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru</p> <p>Welsh Government Priorities</p>	<p>RCG - Rhan o'r wyth ffactor gyfrannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi pob dysgwr, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu dyheadau i gyflawni eu llawn botensial, sy'n gysylltiedig ag ystod o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn. • Cyd-lunio cwricwlwm sy'n hyrwyddo ystod eang o wybodaeth, medrau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithio) gyda dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bwysig - mae cymwysterau yn rhan allweddol o hyn. • Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr. • Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg yr holl staff. • Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol ar gyfer yr holl ymarferwyr mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. • Ymgorffori myfyrio, hunan-werthuso a gwelliant o fewn ysgolion a phwysigrwydd arweinyddiaeth dda mewn ysgolion fel sail ar gyfer hynny. • Bod yn ganolog i'w cymunedau – rydym am feithrin gwell perthynas rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyflawniad addysgol a chyflogaeth ardderchog, y camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant. • Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.
<p>Prif Swyddog (ion)</p> <p>Lead Officer (s)</p>	<p>Anwen Orrells</p>
<p>Rhesymeg</p> <p>Rationale</p>	<p>Wedi sefydliad PACC ym mis Medi 2021, mae'r gwaith a'r ddealltwriaeth o'r cydweithio rhwng Ceredigion a Phowys yn parhau i gael eu datblygu. Nod blaenoriaethau 2023 – 2024 yw sicrhau gwell dealltwriaeth, gan bob parti, o waith, cefnogaeth ac effaith cefnogaeth a dysgu proffesiynol Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru.</p>

<p style="text-align: center;">Bwriad cyffredin</p> <p style="text-align: center;">Overarching intention</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu perthynas waith gref a chadarnhaol gyda'r holl rhanddeiliaid, gan gynnwys penaethiaid ledled Ceredigion a Phowys fel bod gwaith PACC yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr. • Datblygu sianeli cyfathrebu effeithiol ar gyfer ysgolion ac ymarferwyr PACC fel bod pob ysgol yn deall y gwaith, y dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael drwy PACC. • Sicrhau bod prosesau cynllunio gwerthusol a datblygu cadarn ar waith fel bod cydweithio a gwaith PACC yn cefnogi anghenion gwasanaethau ac ysgolion Ceredigion a Phowys yn effeithiol.
<p style="text-align: center;">Meini Prawf Llwyddiant</p> <p style="text-align: center;">Success Criteria</p>	<p><u>Tymor byr:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth gref o rôl a gwaith PACC gan yr holl rhanddeiliaid • Ymgysylltu cryf gan rhanddeiliaid mewn gwefan PACC, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'r cylchlythyr • Mesurau cynllunio, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn ar waith. <p><u>Hir dymor:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gwaith PACC yn rhoi cefnogaeth gref i holl ysgolion Ceredigion a Phowys • Dim ysgolion yng nghategori swyddogol Estyn.

CYLLID RCG PACC - 2023 – 2024

Disgrifiad o'r gyllideb	Cymru	Powys £1,092,272	Ceredigion £706,038
A. Cymorth cwricwlwm ac asesu			
Cymorth rhanbarthol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm ac asesu (CYBLD)	£3,400,000	£137,276	£69,591
Datblygiad y cwricwlwm ac asesu i ysgolion, gan gynnwys rhwydweithiau cenedlaethol a dilyniant dysgu (CYBLD)	£9,346,000	£377,347	£191,294
Cefnogaeth ranbarthol ar gyfer ieithoedd modern (Global Futures) (Dosbarthiad cyfartal)	£462,000	£19,250	£19,250
Ieithoedd Tramor Modern – meithrin gallu ar gyfer ieithoedd modern yn y sector cynradd (CYBLD)	£271,000	£10,942	£5,547
Grant llythrennedd a rhifedd / cymorth ar gyfer gwella'r cwricwlwm (Dosbarthiad cyfartal)	£500,000	£20,833	£20,833
Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cynradd – Cynllun llafaredd i Gymru (CYBLD)	£400,000	£16,150	£8,187
Fframwaith Cymhwysedd Digidol (Dosbarthiad cyfartal)	£100,000	£4,167	£4,167
Codio a medrau digidol (CYBLD)	£300,000	£12,113	£6,140
B. Addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel			
Cyllid dysgu proffesiynol i ysgolion (Fformiwla / FTE athrawon a staff cynorthwyol. Wedi ei ddosbarthu gan yr ALL yn syth i ysgolion).	£12,000,000	(£489,251) Dosbarthwyd trwy'r ALL yn uniongyrchol i ysgolion	(£263,384) Dosbarthwyd trwy'r ALL yn uniongyrchol i ysgolion
Dysgu, ymholiadau ac ymchwil proffesiynol dan arweiniad yr ysgol i wireddu'r cwricwlwm (CYBLD)	£3,000,000	£121,126	£61,404
Rhaglen dysgu proffesiynol i ddiwygio'r cwricwlwm (Dosbarthiad cyfartal)	£2,700,000	£112,500	£112,500

Dysgu proffesiynol ar gyfer datblygu ymarfer a myfyrio (Dosbarthiad cyfartal)	£900,000	£37,500	£37,500
Llwybr dysgu i gynorthwyrwyr addysgu (Dosbarthiad cyfartal)	£950,000	£39,583	£39,583
Dysgu proffesiynol lefel A a'r Fagloriaeth Cymru (Seiliedig ar y nifer o ddysgwyr 6ed dosbarth)	£650,000	£35,880	£13,455
Sefydlu / Cymorth gyrfa cynnar (Dosbarthiad cyfartal)	£250,000	£10,417	£10,417
Rhaglen arweinyddiaeth y dyfodol (cymorth i ddarpar arweinwyr, arweinwyr canol, cymell a mentora) (Dosbarthiad cyfartal)	£850,000	£35,417	£35,417
Cymhwyster cenedlaethol ar gyfer prifathrawon (CPCP)	£550,000	Yn seiliedig ar nifer y cyfranogwyr	
Cymraeg – datblygiad proffesiynol (CYBLD)	£2,500,000	£100,938	£51,170
Grant cynhwysedd Cymraeg (Dyraniadau)	£226,000	(£11,667) Dosbarthwyd trwy'r ALI yn uniongyrchol i ysgolion	(£17,917) Dosbarthwyd trwy'r ALI yn uniongyrchol i ysgolion
Cefnogi Dysgwyr sy'n agored i niwed	£75,000		£18,750
C. Arall			
Grant Gwella Addysg i Ysgolion (EIG) (wedi'i bwysoli yn ôl mis a CYBLD – Dosbarthwyd trwy'r ALI yn uniongyrchol i ysgolion)		(£4,724,930) Dosbarthwyd trwy'r ALI yn uniongyrchol i ysgolion	(£2,495,706) Dosbarthwyd trwy'r ALI yn uniongyrchol i ysgolion
Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru (Dosbarthiad cyfartal)	£20,000	£833	£833
		£6,318,120 O hyn bydd £5,225,848 yn cael ei ddosbarthu yn uniongyrchol i'r ysgolion gan yr ALI. Cyfanswm yn weddill ar gyfer gwaith PACC: £1,092,272.00	£3,483,045 O hyn bydd £2,777,007 yn cael ei ddosbarthu yn uniongyrchol i'r ysgolion gan yr ALI. Cyfanswm yn weddill ar gyfer gwaith PACC: £706,038.00